# Adroddiad **Perfformiad Blynyddol** 2022/23




CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagarweiniad** | 03 |
| **2.** | **Gosod Blaenoriaethau** | 03 |
| **3.** | **Alinio Amcanion Lles a Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor** | 04 |
| | 3.1 Asesiad o'n Hamcanion Lles | 05 |
| **4.** | **Meysydd Perfformiad Uchel** | 06 |
| **5.** | **Uchafbwyntiau Perfformiad a'r Hyn a Gyflawnwyd** | 07 |
| | 5.1 Portffolio: Addysg ac Ieuenctid | 07 |
| | 5.2 Portffolio: Tai a Chymunedau | 13 |
| | 5.3 Portffolio: Llywodraethu | 16 |
| | 5.4 Portffolio: Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi | 17 |
| | 5.5 Portffolio: Gwasanaethau Cymdeithasol | 20 |
| | 5.6 Portffolio: Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | 22 |
| | 5.7 Portffolio: Prif Weithredwyr | 24 |
| **6.** | **Cynnydd ar Gynllun y Cyngor – Ffeithlun o statws COG** | 26 |
| | 6.1 Asesiad o'n Perfformiad | 26 |
| | 6.2 Crynodeb Perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23 | 27 |
| | 6.3 Crynodeb o Ddata Perfformiad Cynllun y Cyngor | 29 |
| **7.** | **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Pum Ffordd o Weithio** | 30 |
| Astudiaeth Achos 1: | Gosod Mannau Gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan mewn Meysydd Parcio sy'n Eiddo i'r Cyngor | 30 |
| Astudiaeth Achos 2: | Polisi Torri Glaswellt Newydd sy'n Hyrwyddo Bioamrywiaeth | 34 |
| Astudiaeth Achos 3: | Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi | 37 |
| Astudiaeth Achos 4: | Cymorth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu'r Gwasanaeth Deuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar | 41 |
| **8.** | **Cydraddoldeb** | 43 |
| **9.** | **Y Gymraeg** | 43 |
| **10.** | **Gweithgarwch Partneriaeth a Chydweithio- Diweddariad i ddilyn ar 21/06** | 44 |
| **11.** | **Rheoli Risg** | 45 |
| **12.** | **Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu** | 45 |
| **13.** | **Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** | 45 |
| **14.** | **Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol (Ar gael ar gais)** | 46 |
| **15.** | **Adborth a Sut i Gael Rhagor o Wybodaeth** | 46 |

# 1. Rhagarweiniad

Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol Sir y Fflint. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2022/23 yn erbyn y blaenoriaethau a osodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles;

- Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol
- Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel
- Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain
- Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy a thwf
- Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent
- Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu

Mae'r adroddiad yn trafod:

- Gwybodaeth perfformiad gwirioneddol a chymharol.
- Ein perfformiad yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Pum Ffordd o Weithio a'n Hamcanion Lles ein hunain.

# 2. Gosod Blaenoriaethau

Roedd pandemig COVID-19 yn gyfnod anodd dros ben i lawer o bobl a hyd yn oed yn ystod 2022, roeddem ni, y Cyngor, yn parhau i wynebu nifer o heriau. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi bod yn gyfle i ni ailddiffinio a gwerthuso ein strategaethau, ein cynlluniau a'n nodau ar gyfer y dyfodol. Mae'r hyn a oedd yn ymateb y Cyngor i'r pandemig ynghynt, i raddau helaeth erbyn hyn, yn fodel 'busnes fel arfer newydd'.

Mae'r pedair thema a nodwyd ar gyfer gwelliant pellach fel blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol, wedi'u llunio gan Gynghorwyr ar draws ein swyddogaethau Trosolwg a Chraffu a Chabinet, sef;

- **Gwella trefniadau cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol**
- **Datblygu Asesiadau Effaith Integredig**
- **Cynaliadwyedd yr Adnoddau a Gwydnwch y Gweithlu**
- **Hyfforddiant i Aelodau (oherwydd niferoedd uchel o aelodau newydd)**

Ceir manylion pellach arnynt yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor (2022/23).

# 3. Alinio Amcanion Lles a Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2022/23. Ar gyfer 2022/23, mae'r Amcanion Lles wedi cael eu dyrannu i'r portffolios priodol, fel y nodir isod:


| Portffolio | Amcanion Lles |
|---|---|
| Addysg ac Ieuenctid | • Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol<br>• Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu<br>• Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent |
| Tai ac Asedau | • Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol<br>• Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel<br>• Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent |
| Llywodraethu | • Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol |
| Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi | • Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy<br>• Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol<br>• Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain<br>• Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | • Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent |
| Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | • Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain<br>• Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy |
| Prif Weithredwyr | • Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol<br>• Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy |

Sylwch: Mae'r cynllun lliwiau a ddefnyddir yn y tabl hwn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws i'w adnabod.

## 3.1 Asesiad o’n Hamcanion Lles

Mae Amcanion Lles y Cyngor wedi’u gosod yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae’n ofynnol bod cyrff cyhoeddus dynodedig yn gweithio’n unigol ac ar y cyd i wella lles yng Nghymru. Mae’r saith nod lles a’r pum ffordd o weithio yn gosod diben cyffredinol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn ceisio sicrhau y gwneir penderfyniadau gwell drwy:




Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r saith nod lles drwy ddilyn y **ddolen** hon.

Mae adran saith yn yr adroddiad hwn, ‘Cenedlaethau’r Dyfodol – Astudiaethau Achos Pum Ffordd o Weithio’, yn cynnig enghreifftiau o sut rydym wedi bodloni ffyrdd o weithio ‘Cenedlaethau’r Dyfodol’ mewn meysydd gwaith penodol.

Mae ein Hamcanion Lles yn adlewyrchu’r ‘Effeithiau’ yr ydym yn bwriadu eu cyflawni drwy’r camau gweithredu a’r gweithgarwch o fewn pob blaenoriaeth. Mae asesiad o gynnydd yn erbyn pob Amcan yn cael ei lunio fel rhan o’r perfformiad cyffredinol ar gyfer pob blaenoriaeth.

# 4. Meysydd Perfformiad Uchel

Gwasanaethau i chi – crynhoad o ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig i gymunedau Sir y Fflint a rhai ffigyrau o ran pa mor dda oedd ein perfformiad y llynedd (2022/23);

- Cynhaliwyd **1,102** o sesiynau cynllun chwarae dwy awr ar draws Sir y Fflint yn ystod gwyliau'r haf. Cefnogwyd **30** o blant i fynychu trwy'r cynllun cyfeillio.
- Cyflwynodd Swyddog y Gymraeg **13** o brosiectau, a bu i **7,346** o blant a phobl ifanc elwa ohonynt. Mae'r prosiectau hyn wedi hyrwyddo'r Gymraeg yn fawr.
- Mae **55** o ysgolion cynradd wedi ymgysylltu â'r hyfforddiant Iaith a Chyfathrebu Cynnar, gan gael mynediad at becynnau gwaith am ddim i gefnogi darparu'r ymyrraeth i ddysgwyr.
- Mae'r rhan fwyaf o Glybiau Ieuenctid Sir y Fflint yn ymgysylltu â'r fenter Cymraeg Bob Clwb, gyda **628** o bobl ifanc yn cymryd rhan.
- Mae **217** o larymau Carelink a **73** o larymau Teleofal wedi'u gosod i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae **280** o bobl o Wcráin wedi'u hadsefydlu yn Sir y Fflint, a dyma lle mae'r gyfradd symud ymlaen **uchaf ond un** ar draws Cymru gyfan.
- Mae **16** o ganolfannau cymunedol gwarchod a **35** o grwpiau lleol wedi'u cefnogi i ddarparu Croeso Cynnes o fis Tachwedd 2022 i fis Mawrth 2023.
- Lefelau casglu Treth y Cyngor 'yn ystod y flwyddyn' ar gyfer 2022/23 oedd **97.4%.**
- Cynhaliwyd **146** o sesiynau cymorth i fusnesau ar gyfer **48** o fentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint.
- Cafodd **43** o fusnesau micro a bach gwledig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru eu cefnogi gan y Gronfa Adnewyddu Menter i gyflwyno cynnyrch a/neu brosesau newydd.
- Mae nifer y micro-ofalwyr wedi cynyddu yn 2022/23, gydag **11** o bobl ychwanegol yn darparu gwasanaethau yn y sir, sy'n golygu bod cyfanswm o **34.**
- Mae Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Cymru wedi ymateb i **100%** o'i geisiadau am gyfarpar brys o fewn y safon ymateb genedlaethol o **1 diwrnod.**
- Mae Gwasanaethau Stryd wedi gosod cyfanswm o **15** o Fannau Gwefru Deuol ar gyfer Cerbydau Trydan mewn **8** maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor, gan olygu bod modd gwefru hyd at **30** o gerbydau ar y tro.
- Penodwyd **26** o brentisiaid ar draws **14** o ddisgyblaethau ym mis Medi 2022.
- Aeth **53** o unigolion ifanc â statws DACH (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) yn eu blaenau i addysg bellach neu waith.
- Cynhaliodd 'Sorted' Sir y Fflint (Tîm Cyffuriau ac Alcohol), gyda chefnogaeth Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, **59** o sesiynau estyn allan i'r gymuned ar gyffuriau ac alcohol mewn **7** lleoliad, gan ymgysylltu â **1693** o bobl ifanc. Cynhaliwyd **725** o sesiynau hefyd mewn **13** ysgol yn Sir y Fflint (gan ymgysylltu â **5233** o bobl ifanc).
- Cymerodd tua **150** o blant a phobl ifanc ran yn y gweithgareddau a ddarparwyd gan Wasanaethau Ieuenctid y Cyngor yn yr Eisteddfod yn Ninbych.
- Mae **75** o bobl ifanc wedi elwa o'r Prosiect Celf Ofalgar.
- Cafodd **£330,024** (Dyraniad Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chyllid ychwanegol gan y Llywodraeth) ei ddefnyddio i gefnogi aelwydydd â thaliadau ychwanegol, er mwyn cynorthwyo â rhent, oherwydd effaith costau cynyddol yr argyfwng costau byw.

# 5. Uchafbwyntiau Perfformiad a'r Hyn a Gyflawnwyd

## 5.1 Portffolio: Addysg ac Ieuenctid

### Perfformiad Cryf

- Mae'r tîm Darpariaeth Ieuenctid Integredig wedi cyflwyno Upshot, offeryn monitro, gwerthuso a dysgu, sy'n gwella'r broses o gasglu a defnyddio data.
- Cofrestrwyd cyfanswm o 3,975 o blant ar gyfer y cynlluniau chwarae gwyliau'r haf ar draws y sir. Cymerodd cyfanswm o 15,556 o blant ran rhwng 1,102 o sesiynau cynllun chwarae dwy awr a gynhaliwyd ar draws Sir y Fflint. Cefnogwyd 30 o blant hefyd i fynychu trwy'r cynllun cyfeillio.
- Cyflawnodd Swyddog y Gymraeg 13 o brosiectau, a bu i 7,346 o blant a phobl ifanc elwa ohonynt. Mae'r prosiectau arloesol hyn wedi ein galluogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn fawr.
- Aeth 53 o unigolion ifanc â statws DACH (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) yn eu blaenau i addysg bellach neu waith. Cefnogodd y Tîm Gwydnwch gyfanswm o 105 o bobl ifanc.
- Grant Urddas Mislif: Roedd y portffolio'n comisiynu darparwr allanol am ail flwyddyn i ddarparu cynnyrch mislif i ystod o wasanaethau o fewn addysg a'r gymuned ehangach. Cafodd 'Pecynnau Cartref' eu hanfon yn syth i gartrefi merched rhwng 8-18 oed a oedd yn mynychu un o ysgolion Sir y Fflint. Mantais y dull hwn yw ei fod yn rhoi mwy o ddewis i ddisgyblion. Darparwyd cyfran o gyllid grant i bob ysgol gynradd ac uwchradd ar gyfer prynu cynnyrch mislif er mwyn 'ychwanegu at eu cyflenwad presennol'. Dosbarthwyd cynnyrch mislif i bob un o'r 9 canolfan banc bwyd a phob prosiect/ grŵp ieuenctid.
- Parhaodd y Grant Urddas Mislif; Rydym hefyd wedi cysylltu â chydlynydd adsefydlu'r Cyngor, i gefnogi'r ffoaduriaid o Wcráin, Affganistan a Syria sydd bellach wedi'u lleoli yn Sir y Fflint. Cafodd ei ddosbarthu mewn sawl ffurf, gan gynnwys trwy ganolbwyntiau cymunedol a llyfrgelloedd.
- Defnyddiwyd cyllid grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gefnogi hyfforddiant ar gyfer staff y blynyddoedd cynnar mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd, gan ddarparu addysg blynyddoedd cynnar ar ran y Cyngor, sef Cyfle Cynnar. Canolbwyntiwyd ar Raddfeydd Lles Leuven. Mynychodd 39 o'r 45 lleoliad y cwrs dwy ran ar Raddfeydd Leuven (81 aelod o staff). Ers hynny, mae rhai lleoliadau wedi defnyddio'r graddfeydd wrth gefnogi lles plant.
- Mae ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yn parhau i amgyffred amcanion y Siarter Iaith a Chymraeg Campus er mwyn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Mae 4 o ysgolion wedi ennill gwobr Arian a 4 o ysgolion wedi ennill gwobr Efydd ar gyfer Cymraeg Campus ers mis Ebrill 2022. Mae'r 'Criwiau Cymraeg' ym mhob ysgol yn gweithio'n galed i bennu blaenoriaethau'r ysgol a helpu gyda phenderfynu ar weithgareddau ar gyfer eu hysgolion, ac mae rhai'n cynnwys cymuned ehangach yr ysgol yn effeithiol.

- Yn 2022/23, bu i ni gyflwyno Rhaglen Drawsnewid y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Cynhaliodd 'Sorted' Sir y Fflint (Tîm Cyffuriau ac Alcohol), gyda chefnogaeth Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, 59 o sesiynau estyn allan i'r gymuned ar gyffuriau ac alcohol mewn 7 lleoliad, gan ymgysylltu â 1693 o bobl ifanc. Maent hefyd wedi cynnal 725 o sesiynau mewn 13 o ysgolion yn Sir y Fflint (gan ymgysylltu â 5233 o bobl ifanc).
- Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) wedi cefnogi 61 o ddioddefwyr a chynnal 756 awr o weithgareddau gwneud iawn yn y gymuned, ac mae'r GCI yn parhau i weithredu Pecyn Gwaith sy'n Ystyried Trawma, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cytunwyd ar nifer o ddogfennau polisi eleni, gan gynnwys y Strategaeth Cyfranogiad a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Anghyfartaledd.
- Lluniwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Trais Ieuenctid, sy'n cyd-fynd â gwaith Grŵp Tasg a Gorffen Rhanbarthol y Ddyletswydd Trais Difrifol.
- Parhau i gynnal gweithdai cymunedol gyda Theatr Clwyd, Sorted a'r Gwasanaethau Ieuenctid, er mwyn codi ymwybyddiaeth am effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gymunedau ac unigolion.
- Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu ardaloedd mewnol ac allanol yn Ysgol Croes Atti, Glannau Dyfrdwy. Roedd hyn yn cynnwys newid strwythur dosbarthiadau, gwella trefniadau diogelu, gwella hygyrchedd a gosod rhai drysau a ffenestri newydd, ynghyd â gwneud gwelliannau i'r ardal chwarae a'r ffensys. Cwblhawyd hyn ym mis Ionawr 2023, gyda buddsoddiad o tua £0.850 miliwn. Yn ogystal â'r gwaith adnewyddu, sefydlwyd uned gofal plant bwrpasol newydd ar gyfer 20 o blant, ac fe'i hariannwyd trwy fuddsoddiad Grant Gofal Plant o tua £0.375 miliwn gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd y gwaith a gwblhawyd yn Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug, yn cynnwys estyniad newydd er mwyn cynyddu'r capasiti cyfrwng Cymraeg o 309 disgybl llawn amser i 356, adnewyddu adeiladau presennol yr ysgol a thrawsnewid ardal ar gyfer sefydlu uned gofal plant bwrpasol. Cafodd y gwaith ei gwblhau a'i drosglwyddo yn ystod Haf 2022, buddsoddiad o tua £4.3 miliwn.

## Straeon Cryf

- **Prosiect Cydsyniad** - Mewn partneriaeth â Theatr Clwyd, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyflwyno prosiect blynyddol ynghylch "Cydsyniad". Mae 'Cydsyniad' yn darparu gweithdai rhyngweithiol, gan ddefnyddio perfformiadau byw, i archwilio'r materion sy'n codi o ran Cydsyniad Rhywiol. Mewn amgylchedd diogel a chefnogol, bydd pobl ifanc yn archwilio'r hyn sy'n gwneud perthynas iach, effeithiau alcohol a chyffuriau ar benderfyniadau ac yn olaf, sut y mae'r gyfraith yn gweithio mewn perthynas â Chydsyniad. Cyflwynir sefyllfa i'r bobl ifanc, sy'n cael ei pherfformio gan actorion proffesiynol. Cyflwynir y Prosiect Cydsyniad yn ddwyieithog i bob ysgol ac yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Maes Garmon. Yn 2022/23, bu i ni gyflwyno'r Prosiect Cydsyniad i bob disgybl Blwyddyn 9 ar draws Ysgolion Sir y Fflint.

- **Gwaith Ymgysylltu LHDT+** - Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth â Viva a Pride Cymru ar hyn o bryd. Mae’r bartneriaeth hon yn galluogi darpariaeth Clwb Ieuenctid LHDT+ wythnosol yng Nglannau Dyfrdwy. Mae’r cydweithio’n deillio o drafodaethau â phobl ifanc yn Sir y Fflint, a dynnodd sylw at yr angen i gael grŵp penodol ar gyfer LHDT+. Ariennir y grŵp gan Pride Cymru ac mae’r sesiynau’n cael eu cynnal gan Weithwyr Ieuenctid, sydd â gwybodaeth am LHDT+.
- **Ysgol Maes Garmon** - Sicrhaodd y Gweithiwr Ieuenctid Trochi yn yr Ysgol a’r Gymuned gyllid gan The Proud Trust ar gyfer darparu sesiynau gwybodaeth i ddisgyblion blwyddyn 9. Roedd hyn yn dilyn materion a nodwyd mewn perthynas ag iaith casineb a rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu targedu a’u bwlio. Yn dilyn y gwaith gyda The Proud Trust, cynhaliodd yr Ysgol a’r Gweithiwr Ieuenctid Trochi yn yr Ysgol a’r Gymuned sesiynau addysg ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 yn ystod eu gwersi Saesneg, a oedd yn canolbwyntio ar hunaniaeth rhywedd, rhagenwau a rhywioldeb.
- **Digwyddiad** - Cymerodd grŵp o bobl ifanc yng Nghei Connah, sy’n cael trafferth â gorbryder, hunan-barch, hyder a hwyliau isel, ran mewn digwyddiad arbennig i gefnogi eu hanghenion penodol. Er bod y bobl ifanc hyn yn cael trafferthion gyda phresenoldeb yn yr ysgol oherwydd eu hiechyd meddwl, bu i bob un ohonynt fynychu a chymryd rhan lawn yn y sesiwn.
- **Grŵp Llywio** - Daeth grŵp o bobl ifanc o Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Uwchradd Cei Connah ynghyd i greu’r logo newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae’r logo’n cael ei ddatblygu gan dîm dylunio ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei ddefnyddio’n fuan fel rhan o’r gwaith i ail-frandio’r Gwasanaeth Ieuenctid.
- **Ysgol Trefynnon** - Gofynnwyd i’r Gweithiwr Ieuenctid Trochi yn y Gymuned gynnal 6 wythnos o sesiynau ar gyfer grŵp o’r gymuned LHDTC+ ym mis Ebrill 2022. Bu i’r grŵp fwynhau’r sesiynau, gan bwysleisio yr hoffent gael rhywle i fynegi eu hunain a siarad yn agored am eu teimladau a’u hemosiynau; sefydlwyd grŵp LHDTC+ yn yr ysgol i ddiwallu hyn, ac mae’r grŵp yn cwrdd yn ystod amser cinio. Arweinir y sesiynau gan y bobl ifanc ac maent wedi rhoi cyfle i’r disgyblion drafod materion personol megis - sut a phryd maent yn credu ei bod hi’n addas ‘dod allan’ i’w rhieni a’u ffrindiau. Mae ‘The Proud Trust’ wedi darparu cyngor a chymorth gyda syniadau am sesiynau. Mae’r bobl ifanc wedi bod yn greadigol ac wedi mynegi eu hemosiynau trwy greu mygydau, a gafodd eu harddangos yn yr ysgol ym mis Mehefin 2023 i ddathlu mis Pride. Mae’r disgyblion wedi mwynhau a pherchnogi’r gofod cefnogol rheolaidd, lle gallant ddefnyddio eu lleisiau, cael eu clywed a mynegi eu hunain.
- **Celf a Lles (Prosiect Celf Dwyieithog)** - Cafodd y prosiect hwn ei gynnal a’i ddarparu drwy ein Clybiau Ieuenctid, a’r prif nod oedd cefnogi pobl ifanc i ddefnyddio celf fel ffordd o wella eu hiechyd meddwl a’u lles. Bu i wyth o’n clybiau ieuenctid gymryd rhan yn y prosiect hwn, gyda 44 o bobl ifanc cystadlu â’u gwaith yng Nghystadlaethau Celf, Crefft a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llwyddodd nifer o ddarnau o waith i fynd drwodd i’r Eisteddfod Sir ac aeth gwaith un unigolyn ifanc ymlaen i’r Eisteddfod Genedlaethol.
- **Cân a Lles (Prosiect Cerddoriaeth Gymreig ‘Dal i Ddod’)** - Prif bwrpas y prosiect hwn oedd gadael i bobl ifanc fod yn greadigol a mynegi eu syniadau a’u teimladau ynglŷn â sut y mae’r pandemig byd-eang wedi tarfu arnom. Bu i ni gynnal sesiynau wythnosol yn ystod gwersi cerdd TGAU yn Ysgol Maes Garmon gyda deuddeg o fyfyrwyr Blwyddyn 10 dros gyfnod o 8 wythnos. Cymerodd y disgyblion ran yn y broses o ysgrifennu cân. Ewch i wrando ar y gân **yma!**

- **Cwrs Trochi** - Mae Ysgol Maes Garmon yn cynnal cwrs trochi'r Gymraeg llwyddiannus i blant sy'n dymuno symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i'w hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae Swyddog y Gymraeg yn cynnal sesiynau ar gyfer y bobl ifanc sy'n ystyried gwneud y newid hwn. Cymerodd 41 o bobl ifanc ran, a bu i nifer ymuno â'r cwrs trochi Blwyddyn 6/7, gan ddewis symud i Ysgol Maes Garmon ar gyfer eu haddysg uwchradd.
- **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dinbych** - Mynychodd Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych ym mis Mai 2022, i gynnal sesiynau celf a chwarae, a chymerodd dros 150 o blant a phobl ifanc ran yn y gweithgareddau yn yr Eisteddfod. Roedd y diwrnod ar Faes yr Eisteddfod yn brofiad gwych i'r tîm Gwasanaeth Ieuenctid gael eu trochi yn y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Mae **Cymraeg Bob Clwb** - yn brosiect sy'n cael ei gynnal yn ein clybiau ieuenctid. Y prif nod yw sicrhau bod y Gymraeg a'r diwylliant yn fwy amlwg yn adeiladau ein clybiau ieuenctid. Mae ymadroddion Cymraeg cyffredin syml, perthnasol i'r lleoliad, wedi'u gosod o amgylch yr adeiladau i annog defnyddio'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o Glybiau Ieuenctid Sir y Fflint yn ymgysylltu'n dda â'r prosiect, gyda 628 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Y nod yw normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r ysgol a'i chynnwys yn ein cymunedau.
- **Cymraeg Bob Cynllun** - Prif nod y prosiect hwn oedd annog Aelodau Cynlluniau Chwarae Cymunedol Gwyliau'r Haf i ddefnyddio mwy o Gymraeg llafar yn ystod y Cynlluniau Chwarae mynediad agored dros yr Haf.
- **Gweithdai Cyfansoddi Digidol a Sgiliau 'DJ'** - Hanfod y prosiect hwn oedd galluogi pobl ifanc i fynegi eu hunain drwy gerddoriaeth electronig, gan ddysgu sgiliau newydd fel 'DJ' ar yr un pryd. Cynhaliwyd cyfanswm o 12 sesiwn, gyda 101 o bobl ifanc yn cymryd rhan.
- **Celf Ofalgar** - Nod y prosiect hwn oedd rhoi'r sgiliau i bobl ifanc ddysgu sut i ddefnyddio braslunio fel ffordd o gadw eu meddyliau yn weithgar a hefyd fel ffordd o sianelu eu creadigrwydd cadarnhaol. Bu i bedwar clwb ieuenctid gynnal sesiynau, gan roi'r cyfle i bobl fynegi eu hunain yn weledol. Mae cyfanswm o 75 o bobl ifanc wedi elwa o'r prosiect hwn.
- **Digwyddiad Siarter y Plant** - Digwyddiad dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ystod gwanwyn 2022. Daeth plant a phobl ifanc draw i'r digwyddiad yn Neuadd Erddig, Wrecsam i gasglu eu barn a'u syniadau ar bynciau amrywiol, a fydd yna'n galluogi BIPBC i greu Siarter Plant newydd. Bydd y Siarter yn gyfres o safonau y bydd y sefydliadau yn gweithio tuag atynt, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn deg a bod ganddynt lais. Roedd yr adrannau amrywiol yn cynnwys, 'Beth yw Caredigrwydd?', 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu?, a 'Beth sy'n fy helpu i gadw'n bositif?'. Mynychodd tua 250 o blant a phobl ifanc y digwyddiad.
- **Clwb Pontio** - Bu ein Tîm Ieuenctid a Chwarae yn gweithio'n agos ag Ysgol Derwenfa rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Aeth y tîm draw i'r ysgol am sawl wythnos i annog y Gymraeg trwy chwarae. Yn dilyn y sesiynau hyn, sefydlwyd clwb pontio ac mae 28 o blant o flwyddyn 5 a 6 wedi bod yn mynychu'n wythnosol a bydd hyn yn eu hannog i ymuno â'r Clwb Ieuenctid pan fyddant yn un ar ddeg mlwydd oed.
- **Lles a Cherddoriaeth** - Mae'r prosiect hwn wedi bod yn canolbwyntio ar grŵp o 15 o bobl ifanc sydd wedi bod yn cael trafferth â'u hiechyd meddwl a delio â chyfeillgarwch. Cefnogwyd y plant i ysgrifennu cân ar bositifrwydd a charedigrwydd.

- **Taith Hwngari** - Yn dilyn llwyddiant cais am gyllid gan Taith, gweithiodd Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint mewn partneriaeth â'r Urdd. Ym mis Ebrill 2023, aeth 13 o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig ar daith wedi'i hariannu'n llawn i Hwngari. Roedd y daith yn cynnig cyfleoedd nad oedd y bobl ifanc o bosibl wedi'u cael o'r blaen, a rhoddodd hwb i'w hyder a'u sgiliau annibyniaeth.
- **Mwy Nag Iaith** - • Mae Swyddog y Gymraeg wedi ymweld â sawl ysgol i gynnal sesiynau difyr a rhyngweithiol ar fanteision dwyieithrwydd. Mae'r sesiynau'n cynnwys edrych yn ôl ar hanes Cymru a'r Gymraeg, sut mae wedi datblygu, a pha mor bwysig ydyw i ni ei diogelu. Cyflwynwyd y sesiynau hyn i 550 o bobl ifanc.
- Mae'r tîm yn darparu cyrsiau achrededig i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn DACH, yn dioddef o orbryder a/neu sy'n gweld mynychu ysgol prif ffrwd yn heriol. Mae'r bobl ifanc yn gweithio tuag at wobrau Agored mewn coginio, tai a digartrefedd. Mae'r sesiynau'n codi ymwybyddiaeth am ddigartrefedd cudd, ffactorau risg a beth yw digartrefedd. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnwys cyllidebu, cynnal tenantiaeth a byw'n annibynnol. Bydd ennill gwobrau Agored yn rhoi gwell cyfle i bobl ifanc fynd i'r coleg neu ddychwelyd i'r ysgol.
- Bu'r bobl ifanc yn gweithio â grŵp theatr i greu darn o gelf a ffilm ynghylch beth mae cymuned yn ei olygu iddynt. Yn yr ardd gymunedol, rhoddwyd cyfle i'r bobl ifanc dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain a gweithio gydag aelodau eraill o'r gymuned. Cafodd y bobl ifanc gyfle hefyd i wirfoddoli mewn siopau, swyddfeydd ac Ysgol Goedwig. Cymerodd 7 o'r bobl ifanc ran mewn Cwrs Preswyl er mwyn gwella eu hiechyd meddwl ac maent hefyd wedi helpu i drefnu gŵyl gerddoriaeth dros yr haf.

**Effaith y Gwasanaeth Dilyniant ar Blant a Phobl Ifanc nad ydynt o bosibl Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (DACH)**

- Mae Gwasanaeth Dilyniant y Cyngor wedi cynnig dewis helaeth o gyfleoedd i helpu ail-ymgysylltu plant a phobl ifanc sydd wedi'i chael hi'n anodd cymryd rhan mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.
- Mae'r tîm yn cydweithio'n agos â nifer o wasanaethau a darparwyr ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi datblygiad sgiliau pwysig, megis byw'n annibynnol.
- Gall plant a phobl ifanc hefyd gael mynediad at ystod o achrediadau mewn meysydd galwedigaethol perthnasol, megis Trin Gwallt a Harddwch, Chwaraeon a Hamdden, Hylendid Bwyd ac Adeiladu.
- Roedd rhai o'r gweithgareddau'n canolbwyntio'n fawr ar gymuned, gan gynnwys coginio ar gyfer unigolion digartref ac uwchgylchu dodrefn gyda chyfranogwyd, gan ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymuned a dealltwriaeth o eraill sydd o bosibl yn llai ffodus na nhw.
- Mae'r ymyrraeth hon wedi bod yn allweddol i nifer o unigolion, o ran eu galluogi i adael y tŷ a dechrau gweld gwelliant yn eu hiechyd meddwl, ac mae llawer mwy ohonynt bellach yn dangos diddordeb unwaith eto mewn ysgol neu addysg bellach/uwch. Mae'r ymyrraeth hefyd wedi cefnogi nifer o'r bobl ifanc i roi'r gorau i hunan-niweidio ac wedi cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch a lles.

**Cydweithio rhwng y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant, a Chydweithwyr Iaith a Lleferydd mewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**

- Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cynghorol ar Iaith a Chyfathrebu wedi bod yn cydweithio â chydweithwyr iaith a lleferydd BIPBC er mwyn cyflwyno pecyn ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pob disgybl rhwng 3 a 7 oed ag oedi o ran anghenion iaith, cyfathrebu a sylw. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r prosiect hwn o ystyried effaith sylweddol pandemig COVID-19 ar sgiliau cyfathrebu plant.
- Mae 55 o ysgolion cynradd wedi ymgysylltu â'r hyfforddiant Iaith a Chyfathrebu Cynnar, gan gael mynediad at becynnau gwaith am ddim i gefnogi cyflwyno'r ymyrraeth i ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gyda sgiliau iaith is na'r cyfartaledd, a nodwyd bod sgiliau 45% ohonynt yn sylweddol is.
- Mae'r data effaith sydd wedi'i gasglu hyd yma yn dangos lefel addawol o welliant yn sgil yr ymyrraeth, gyda 35% o ddysgwyr yn arddangos sgiliau iaith sy'n cyd-fynd â'u hoedran ar ôl dilyn y rhaglen 10 wythnos, gan ostwng y nifer sy'n parhau i arddangos lefel sylweddol o angen i 25% a bydd darpariaeth ychwanegol ar gael i'r rheiny.
- Sir y Fflint yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n cynnig hyfforddiant ar yr ymyrraeth hon i ysgolion, wrth aros i ymyrraeth 'Siarad Gyda Fi' Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi.

## Meysydd Gwella

- Gwella lefelau presenoldeb disgyblion.
- Lleihau gwaharddiadau disgyblion.

# 5.2 Portffolio: Tai a Chymunedau

## Perfformiad Cryf

- Cafodd £330,024 o ddyraniad Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chyllid ychwanegol gan y Llywodraeth ei ddefnyddio i gefnogi aelwydydd â thaliadau ychwanegol, er mwyn cynorthwyo â rhent, oherwydd effaith costau cynyddol yr argyfwng costau byw.
- Cafodd dros 200 o aelwydydd gyngor a chefnogaeth arbenigol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau megis y Gronfa Cymorth Dewisol, Cymru Gynnes, Dŵr Cymru, Porth Cymorth Tai, Prydau Ysgol am Ddim a Gwisgoedd Ysgol.
- Cafwyd 59 o ymatebion i holiadur Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymwneud â darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, a dim ond un ymateb oedd yn datgan anfodlonrwydd.
- Caniatawyd 59 o addasiadau canolig, lle o bosibl y byddai dulliau prawf modd blaenorol wedi barnu nad oedd unigolion yn gymwys.
- Cefnogwyd 16 o ganolfannau cymunedol gwarchod a 25 o grwpiau lleol i ddarparu Croeso Cynnes rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, gan alluogi preswylwyr mewn tai gwarchod i fwynhau pryd o fwyd poeth a diod. Darparwyd 10,000 o brydau, er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn parhau i fwyta'n dda dros y gaeaf.
- Cwblhawyd pedair sioe deithiol pryd ar glud er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth Pryd ar Glud. Darperir y rhain yn wythnosol i ganolfannau cymunedol, wrth i breswylwyr fynychu'r gweithgareddau.
- Mae'r Cyngor wedi cefnogi adsefydlu 280 o bobl o Wcráin, fel rhan o gynllun 'Cartrefi i Wcráin' y DU. Dyma'r gyfradd symud ymlaen uchaf ond un ar draws Cymru gyfan.
- Yn ystod 2022/23, mae'r Cyngor wedi cefnogi dros 400 o sipsiwn a theithwyr ar draws 16 o safleoedd yn y Sir.
- Darparodd y Tîm Asesu Budd-daliadau a Grantiau nifer o gynlluniau a mentrau ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru, wrth barhau i gyflawni eu prif faes gwaith, sy'n cynnwys prosesu mwy na 2653 o hawliadau newydd am Fudd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a 48,165 cais am newid mewn amgylchiadau ar gyfer y rhain.
- Yn ystod 2022/23, mae'r Cyngor wedi dyrannu 3824 o Grantiau Hanfodion Ysgol, 698 o hawliadau am Ginio Ysgol am Ddim, prosesi 1,606 o geisiadau am Fathodynnau Glas ac ateb dros 26,000 o alwadau ffôn.
- Ymatebodd 25% i'r Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (ATP) ac roedd y gyfradd ymateb hon yn uwch na'r cyfartaledd, o gymharu â phob rhanbarth arall ar draws Cymru.
- Mae'r broses o gyflwyno System Trefnu Adnoddau Ddeinamig (STAD) ar y camau peilot, sy'n anelu i gyflawni swyddogaeth atgyweirio tai sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer.
- Sicrhawyd cyllid ychwanegol trwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol gan Lywodraeth Cymru gan fod y Cyngor wedi rhagori ar dargedau adnewyddu eiddo gwag hirdymor - o tua £200,000 i dros £500,000.
- Mae Tai yn Gyntaf yn parhau i gefnogi 20 o breswylwyr trwy saith o'i flaenoriaethau, gan gynnwys Egwyddor 1 – Mae gan bobl hawl i gartref.

- Mae'r ymgysylltiad parhaol yn parhau wrth weithio ar achosion cymhleth o ddigartrefedd a chyflawnir hyn trwy sefydlu dull aml-ddisgyblaethol a chydweithio.

## Strong Stories

- Ymatebwyd i'r newid deddfwriaethol mwyaf yn y sector tai mewn cenhedlaeth, ar ôl cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.
- Gwelwyd cynnydd o 10% yn nifer yr atgyfeiriadau 'Lles' a dderbyniwyd, o gymharu â 2021/22.
- Mae'r Cyngor wedi gweld amrywiaeth o gynlluniau cymorth gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno, mae hyn yn cynnwys ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, Tanwydd Gaeaf, Biliau Ynni, Tanwydd Amgen ac ymestyn y Grantiau Hanfodion Ysgol.
- Rhagorodd y Tîm Budd-daliadau a Grantiau ar eu targed cyflymder prosesu ceisiadau newid amgylchiadau ar gyfer Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Y targed oedd 8 diwrnod, ond bu iddynt lwyddo i brosesu'r hawliadau hyn o fewn 6 diwrnod.
- Yn ystod 2022/23, cafodd 29 lifft grisiau eu hailgylchu, gan arbed £20,000 i'r Cyngor.
- Cefnogwyd dros 4000 o breswylwyr trwy ddarpariaeth Croeso Cynnes, a chafwyd adborth cadarnhaol gan breswylwyr.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill, er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal benodol yn Nhreffynnon.
- Ariannwyd y rhaglen ôl-osod (ORP 2) trwy grant gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau un o'r symiau uchaf yng Nghymru (£3 miliwn) ac fe adnewyddwyd a gwariwyd ar 200 eiddo yn sylweddol, yn ogystal â chyflwyno mesurau arbed ynni h.y. paneli solar ac ati.
- Rhagorwyd ar dargedau ar gyfer prentisiaethau yn yr ardal leol a chyflawnwyd hyn trwy raglen fuddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Sefydlwyd Fforwm Cymorth Tai llwyddiannus ac mae tudalen we benodol 'Canolbwynt Tai' ar gael ar wefan y Cyngor, sy'n darparu ystod eang o wybodaeth ynghylch tai.
- Cafwyd gafael ar ddau o gartrefi mwy (5 neu fwy o wlâu), gan ddefnyddio dros £290,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhawyd £12.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 100+ o gartrefi rhent cymdeithasol newydd.

## Meysydd Gwella

- Parhau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Unedau Gwag, er mwyn gwella perfformiad eiddo gwag.
- Dechrau ailgomisiynu prosiectau'r Grant Cymorth Tai yn thematig, gan gynnwys Cynlluniau Tai a Chymorth a Gwasanaethau Cefnogaeth yn Ôl yr Angen.
- Prynu'r System Brynu Ddeinamig, mewn perthynas â darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.
- Adolygu dyfodol NEW Homes a darparu argymhellion i'r Cabinet a Bwrdd NEW Homes.
- Cael gafael ar eiddo yn gyflymach, er mwyn cynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael a lleihau'r pwysau ar wasanaethau.

# 5.3 Portffolio: Llywodraethu

## Perfformiad Cryf

- Lefelau casglu Treth y Cyngor 'yn ystod y flwyddyn' ar gyfer 2022/23 oedd 97.4% ac er gwaethaf y sefyllfa economaidd heriol ac effaith y cynnydd mewn costau byw ar allu rhai aelwydydd i dalu treth y Cyngor ar amser, fe wnaethom dal lwyddo i gynnal safle casglu yn y chwartel uchaf o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.
- **Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol** - Mae Canolbwynt Digidol Sir y Fflint yn hyrwyddo amrywiaeth o fentrau i helpu pobl ddefnyddio technoleg ddigidol nawr ac yn y dyfodol. Mae Canolbwynt Digidol Sir y Fflint yn cynnwys adnoddau i gadw pobl yn ddigidol ar-lein, hyfforddiant, adnoddau iechyd a lles, digwyddiadau digidol a gweithgareddau. Mae Canolbwynt Digidol Sir y Fflint hefyd yn darparu gwybodaeth am gynlluniau uchelgeisiol y Cyngor sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Ddigidol.
- **Y Gwasanaeth Cofrestru** - Yn dilyn pandemig y coronafeirws a'r cyfyngiadau ar briodi, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i reoli'r galw mawr am seremonïau priodas dros y 12 mis diwethaf.

## Straeon Cryf

- **Taliadau/grantiau costau byw** - Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i dalu'r grantiau costau byw o £150 ar gyfer cefnogi preswylwyr gyda chostau cynyddol biliau ynni a'r cartref. Gan ddefnyddio technoleg, e-ffurflenni digidol a pharu data, cafodd taliadau eu gwneud yn awtomataidd mewn sawl achos, heb fod angen i breswylwyr gofrestru ar gyfer y taliad a chafodd 53,000 o daliadau, gwerth £7.9 miliwn eu dyfarnu'n gyflym trwy'r cynllun grant. Ar y cyfan, derbyniodd 98.4% o bobl y grant yn Sir y Fflint, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 95.9%.
- **Banc Data Cenedlaethol** - Mae cardiau SIM a thalebau data ar gael yn ein Canolfannau Cyswllt i breswylwyr cymwys. Mae'r data wedi'i ddarparu am ddim gan Virgin Media, O2, Vodafone a Three. Mae'r Canolfannau Cyswllt yn gweithio â'r Good Things Foundation, elusen sy'n helpu pobl i wella eu bywydau trwy'r digidol.

## Meysydd Gwella

- **Casglu Rhent Tai** - Mae hyn yn parhau'n heriol gyda'r cynnydd mewn costau byw a'r effaith ar allu tenantiaid i'w dalu, yn enwedig gan fod tenantiaid cymdeithasol yn llai tebygol o fod â digon o incwm gwario i ymdopi â'r cynnydd chwyddiant mewn costau byw ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ôl-ddyledion rhent.
- **Ymgysylltu a safonau gwasanaeth i gwsmeriaid** - Mae angen adolygu a llunio polisi ar gyfer y ddau faes hwn, er mwyn sicrhau ei bod yn amlwg pa wasanaethau rydym yn eu cynnig i breswylwyr. Bydd adolygu'r safonau gwasanaeth i gwsmeriaid hefyd yn ein helpu i reoli disgwyliadau cwsmeriaid.

# 5.4 Portffolio:
# Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi

## Perfformiad Cryf

- Cafwyd 4401 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ar Greu Lleoedd yng nghanol trefi a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023, yn ymwneud â threfi Bwcle, Treffynnon a Shotton.
- Rhagorodd y Cyngor ar ei dargedau datgarboneiddio mewn dwy o'i themâu allweddol. Roedd gan y thema adeiladau darged i leihau 9% o allyriadau CO2e a chyflawnwyd lleihad o 13%. Roedd gan y thema symudedd a chludiant hefyd darged i leihau 9% o allyriadau CO2e a chyflawnwyd lleihad o 16%. Mae hyn o ganlyniad i nifer o weithgareddau datgarboneiddio ar draws y Cyngor, gan gynnwys lleihau siwrneiau car diangen, mesurau arbed ynni yn ein hadeiladau a chynhyrchu ynni o dyrbinau gwynt a phaneli solar wedi'u gosod ar adeiladau.
- Lansiwyd ein tudalennau gwe ac e-newyddlen Newid Hinsawdd yn 2022. Mae gan yr e-newyddlen ddeufisol dros 1000 o ddarllenwyr eisoes.
- Cefnogwyd 46 o fuddsoddwyr masnachol preifat mawr, ac mae 6 o'r buddsoddiadau mawr hyn wedi cyrraedd y cam caniatâd cynllunio.
- Cyflwynwyd 63 o sesiynau hyfforddi a mentora diduedd i gyfarwyddwyr masnachol er mwyn eu hannog:- i wneud penderfyniadau ynglŷn â mewnfuddsoddi preifat ac ehangu busnes; gweithredu fel cyfaill critigol masnachol a chyfaill gweithredol ar gyfer gweithrediadau busnes.
- Cynhaliwyd 22 o ddigwyddiadau busnes ac fe ymgysylltwyd â chyfanswm o 795 o gynrychiolwyr. Roedd hyn yn cynnwys 5 x digwyddiad rhwydwaith Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy ac ymgysylltu â 210 o gynrychiolwyr busnes.
- Ar gyfartaledd, mae 70 o fasnachwyr stryd marchnad rheolaidd yn mynychu'r marchnadoedd yn Yr Wyddgrug (64) a Threffynnon (6) yn wythnosol. Yn ogystal, mynychodd 60 o fasnachwyr achlysurol trwy gydol y flwyddyn o amgylch y trefi.
- Mae gan farchnad dan do yr Wyddgrug gyfradd feddiannaeth gyfartalog o 80% a gwneir ymholiadau'n rheolaidd i feddiannu Neuadd y Farchnad.
- Cynhaliwyd 146 o sesiynau cymorth i fusnesau ar gyfer 48 o fentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint.
- Cefnogodd y Cyngor 11 o fentrau cymdeithasol trwy'r broses cofrestru busnesau.
- Cynhaliwyd 4 o ddigwyddiadau rhwydwaith busnes menter gymdeithasol yn ystod 2022/23.
- Cefnogwyd 5 o fentrau'r sector preifat i archwilio eu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o ran cefnogi'r sector mentrau cymdeithasol.
- Gweithiwyd gyda Gweithgor Mentrau Cymdeithasol a oedd yn cynnwys 7 o arweinwyr mentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint ar lunio a threialu 'Pecyn Gwaith Effaith Gymdeithasol' arloesol, sydd wedi nodi gwerth cymdeithasol o £2,814,274.08 trwy weithgareddau'r 7 menter gymdeithasol a gymerodd ran. Yn sgil y gwaith hwn, gwahoddwyd y Cyngor i siarad yn y Gynhadledd Genedlaethol Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ym Manceinion er mwyn rhannu arferion gorau.

- Cafodd 43 o fusnesau micro a bach gwledig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru eu cefnogi gan y Gronfa Adnewyddu Menter i gyflwyno cynnyrch a/neu brosesau newydd nad oeddent wedi'u darparu o'r blaen. Cafodd cyfanswm o £160,000 o gyllid ei ddyrannu yn 2022/23.
- Cynhaliwyd digwyddiad Arddangos Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a gryfhaodd gysylltiadau rhwng y sector treftadaeth a'r sector twristiaeth. Mynychodd mwy na 120 o bobl y digwyddiad, ac roedd 19 o arddangoswyr yn cynrychioli 22 o grwpiau a chymdeithasau.
- Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan Bwyllgor Sioe Frenhinol Cymru ynghylch ein presenoldeb fel sir nawdd (Clwyd: Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Wrecsam; Conwy) yn sioe 2022 (18- 21 Gorffennaf). Cawsom ein cefnogi gan ein busnesau lleol a ddarparodd dros 20 o wobrau i fynychwyr y sioe, a chafwyd gwaith tîm hynod gadarnhaol gan y pedwar awdurdod lleol. Defnyddiwyd Ffordd Gogledd Cymru fel y thema i gysylltu'r pedair sir.
- Cynhaliwyd cyfres o 10 digwyddiad rhwydweithio busnes, ar y cyd â grwpiau twristiaeth a lletygarwch lleol, gan ymgysylltu â thros 280 o gynrychiolwyr.
- Cefnogwyd trefnwyr gyda chynnal Gŵyl Fwyd a Diod lwyddiannus yr Wyddgrug unwaith eto ym mis Medi, ar ôl dwy flynedd o seibiant yn sgil y pandemig. Denodd penwythnos yr ŵyl dros 10,000 o bobl a bu mwy na 100 o arddangoswyr yn arddangos eu cynnyrch – y rhan fwyaf ohonynt yn gynhyrchwyr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
- Darparwyd cyfres o deithiau ymgyfarwyddo ar gyfer amrywiaeth o leoliadau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru. Nod y teithiau oedd tynnu sylw at gyrchfannau diddorol ac allweddol i fusnesau twristiaeth lleol, fel bod modd iddynt rannu'r wybodaeth ac annog ymwelwyr i dreiddio'n ddyfnach i hanes, diwylliant, tirweddau, atyniadau, a lleoliadau lletygarwch lleol. Bu cyfanswm o 60 busnes a 170 o unigolion ar y chwech thaith.

## Straeon Cryf

**Datblygu'r Cynllun Creu Lleoedd:**

- Cynnwys cymunedau a busnesau yn y broses Cynlluniau Creu Lleoedd. Defnyddiwyd cymysgedd o fethodolegau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl leol, gan gynnwys ymgynghoriad digidol trwy arolwg rhyngweithiol ar-lein a digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb.
- Roedd y prif bynciau ymgynghori yn cynnwys: defnydd cyffredinol a chanfyddiadau o ganol trefi, y rhesymau dros ymweld a'r prif rwystrau, nodi anghenion yn y dyfodol a chyfleoedd gwella, casglu canfyddiadau ynghylch diogelwch y cyhoedd, mannau gwyrdd, teithio, ansawdd y cynnig a'r amgylchedd.
- Defnyddir adborth a chanfyddiadau'r cyhoedd i lywio ffordd ymlaen/ blaenoriaethau sy'n codi a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynlluniau Creu Lleoedd. Yn ogystal, mae adolygiad cynhwysfawr o ystadegau a data ar gael fesul tref (yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen, ynghyd â barn a chanfyddiadau'r bobl leol).
- Gweithio mewn partneriaeth ymysg budd-ddeiliaid, gan gynnwys ystod o bortffolios y Cyngor a'u gwasanaethau, Heddlu Gogledd Cymru, BIPBC, Cynghorau Tref, sefydliadau'r sector gwirfoddol/ cymunedol, Llywodraeth Cymru, Comisiwn Dylunio Cymru.

- Manteisiwyd ar gyfleoedd i gydweithio mwy ar draws gwasanaethau yn fewnol a gyda sefydliadau allanol, trwy'r gwaith Creu Lleoedd sydd wedi'i gwblhau hyd yma.
- Cafwyd adborth gwych gan Gomisiwn Dylunio Cymru, yn benodol ynghylch y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer llunio Cynlluniau Creu Lleoedd yn Sir y Fflint hyd yma.
- Erlynwyd dyn busnes lleol yn llwyddiannus am droseddau o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg a'r Ddeddf Twyll. Cafodd ei ddedfrydu i 16 wythnos o garchar, wedi'i ohirio am 12 mis, 150 awr o waith di-dâl, dirwy o £900 a gorchymyn i dalu £3209.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran darparu ei ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol, trwy gyflwyno'r Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth 2020 – 2023, o dan y teitl 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint' wedi:
    - Sicrhau a derbyn £515,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2022/23 ar gyfer gwella bioamrywiaeth.
    - Meithrin cysylltiadau cadarn ar draws portffolios i wella safleoedd a'r gwaith o reoli bioamrywiaeth e.e. Gwasanaethau Stryd, casglu peiriannau torri gwaith a thrin chwyn heb gemegau.
    - Cydlynu'r gynhadledd 'Datblygiad Mwy Gwyrdd' gyntaf erioed a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022, gyda thua 150 o gynrychiolwyr.
    - Hwyluso tua 30 o sesiynau hyfforddiant bioamrywiaeth ar gyfer Aelodau'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.
    - Creu 3.9 Ha o safleoedd blodau gwyllt.
    - Llunio 3 Uwchgynllun Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer canol trefi.
    - Cydweithio â 9 o ysgolion ar gyfer gwella bioamrywiaeth.
    - Prosiect Adfer Gwenoliaid Duon Sir y Fflint: cafodd 126 o siambrau nythu eu gosod, 16 ar 5 safle ysgol. Cafodd 110 o siambrau nythu eu gosod hefyd ar bob adeilad arall, gan gynnwys 4 ar Gyngor Tref Treffynnon a 4 ar Neuadd y Sir, yr Wyddgrug.
    - Plannu coed: 118 o goed safonol a 2482 o goed chwip (gan greu dros 500 metr o wrychoedd newydd) ar draws 16 safle yn Sir y Fflint a sefydlu rhaglen fonitro.
    - Cynnal cyfanswm o 95 o ymyriadau Isadeiledd Gwyrdd (IG), gyda chyfuniad o safleoedd blodau gwyllt a choed.
    - Hwyluso pori cadwraeth yn Bettisfield, yn ogystal â gosod system ddŵr a gwneud gwelliannau i'r ffensys.
    - Creu lle tyfu ffrwythau a llysiau yn y gymuned yn Nyffryn Maes Glas.
    - Adfer 2 Bwll a rheoli cynefinoedd yn well mewn 5 safle.

## Meysydd Gwella

- Rhoi cyfle i unigolion symud yn eu blaenau i waith, addysg neu gyfleoedd gwirfoddoli.
- Gwella cysylltedd digidol ar draws y Sir ar gyfer busnesau a phreswylwyr.

# 5.5 Portffolio: Gwasanaethau Cymdeithasol

## Perfformiad Cryf

- Mae yna 34 o ficro-ofalwyr yn darparu gwasanaethau yn y sir ar hyn o bryd.
- Mae Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Cymru wedi ymateb i 100% o'i geisiadau am gyfarpar brys o fewn y safon ymateb genedlaethol o un diwrnod a 100% o'r ceisiadau o fewn y safon ymateb 7 niwrnod.
- Mae 94% o'r offer wedi'u glanhau a'u ailddefnyddio.
- Darparodd Tîm Datblygu'r Gweithle 407 o sesiynau hyfforddiant, gan gynnig cyfanswm o 9,933 o lefydd i weithwyr, gofalwyr, gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol Sir y Fflint, gan gynnwys yn y sector gofal cartref, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Roedd hyn yn gynnydd o dros 70 o gyrsiau o gymharu â 2021/22, gyda nifer y llefydd a gynigwyd wedi treblu bron, sy'n adlewyrchu'r twf a'r newid ar draws y sector.
- Mae nifer y Micro-ofalwyr wedi cynyddu, gydag 11 o bobl ychwanegol yn sefydlu Microfentrau yn Sir y Fflint eleni, gan ddod â chyfanswm y Micro-ofalwyr ers sefydlu'r lansiad peilot i 34.

## Straeon Cryf

- Mae gwasanaethau preswyl plant wedi datblygu'n sylweddol wrth agor ei ddau gartref grwpiau bychan a'r gwaith adeiladu sydd bellach wedi'i gwblhau ar ddau eiddo 4 ystafell wely, bydd un o'r rhain yn cael ei ddefnyddio fel llety brys.
- Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar gyfer datblygu cartref gofal preswyl 56 ystafell wely newydd yn y Fflint, sy'n cynnig gofal preswyl o'r safon uchaf a chyfleusterau o'r radd flaenaf ar draws y 4 llawr.
- Mae eiddo yn Larchway, Sandycroft a Glan y Morfa, Cei Connah wedi cael eu hadnewyddu i gefnogi pobl gydag anableddau corfforol. Mae gan Sir y Fflint bellach dair uned ar gael i gefnogi pobl sydd angen llety ar frys.
- Mae tîm Rhyddhau, Asesu ac Adfer (RAA) newydd wedi cael ei sefydlu gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i gefnogi dinasyddion yn yr ysbyty a thu hwnt. RAA yw'r cyswllt gofal cymdeithasol rhwng yr ysbyty a'r gymuned, ac rydym yn anelu at sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosibl i bobl.
- Ym mis Medi 2022, darparodd Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau (GRGC) eu trydedd carfan o hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Rhieni.
- Cafodd y rhaglen Project SEARCH ar gyfer oedolion dros 25 oed ei lansio, a bu i 7 o interniaid ymgymryd â lleoliadau gwaith.
- Darparodd Next Steps eu rhaglen wirfoddoli uwch gyntaf a bu i bob dysgwr gwblhau'r cwrs a derbyn Tystysgrif Lefel 1 mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol.
- Lansiwyd y cerdyn adnabod gofalwyr ifanc, gan weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus â gofalwyr ifanc.
- Mae'r Tîm Awtistiaeth wedi cynllunio, darparu a mynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth i Unigolion Awtistig a'u teuluoedd.

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau (GRGC) wedi mynd o nerth i nerth. Ym mis Medi 2022, darparodd GRGC eu trydedd carfan o hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Rhieni, a bu i bum rhiant gwblhau'r hyfforddiant ac ennill eu tystysgrif a'u Hachrediad Agored.
- Bu Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru yn llwyddiannus â'u cais am £148,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a defnyddiwyd y cyllid hwn i brynu 120 o asesiadau er mwyn lleihau'r rhestr aros i tua 19 mis, ar gyfer cleientiaid newydd i'r gwasanaeth, sy'n gofyn am asesiad awtistiaeth.

## Meysydd Gwella

- Datblygu llety brys tymor byr i bobl sy'n ddigartref neu angen llety ar frys.
- Gwella sgiliau digidol ein gweithlu ymhellach.

# 5.6 Portffolio: Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth

## Perfformiad Cryf

- Cadwodd y gwasanaeth ei systemau rheoli ISO 9001, ISO 14,001 ac ISO 45,001.
- Cadwodd y gwasanaeth ei Fanyleb PAS100 sydd ar gael yn gyhoeddus a'i Ardystiad protocol ansawdd ar gyfer cynhyrchu cyflyrwr pridd o wastraff gardd.
- Mae cais am gyllid wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer atgyweirio ac ailddefnyddio mwy o eitemau a fyddai'n cael eu gwastraffu.
- Llwyddodd y Gwasanaeth i sicrhau mwy na £1.7 miliwn o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r prosiectau canlynol;
  - Gwaith trin coridor llwybr yr A5119 rhwng Llaneurgain a'r Fflint
  - Dyraniad Craidd Teithio Llesol - gan gynnwys Llwybr Comin Uchaf Bwcle a Llwybr beiciau Brychdyn / Saltney
  - Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – Chwe ysgol yn y Fflint
  - Cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol
- Cymerodd y Cyngor rôl arweiniol o ran datblygu'r broses gyfreithiol ofynnol, gan alluogi gweithredu'r newid sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth ffyrdd cyfyngedig ar draws Cymru yn llwyddiannus.
- Cafodd cyfanswm o 15 o Fannau Gwefru Deuol ar gyfer Cerbydau Trydan eu gosod yn llwyddiannus mewn 8 maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor, gan olygu bod modd gwefru hyd at 30 o gerbydau ar y tro.
- Bu'r Cyngor yn llwyddiannus wrth geisio ail-gaffael y rhwydwaith trafnidiaeth ysgol.
- Cyflwynwyd Gwasanaeth Fflecsi ychwanegol ar gyfer ardal Bwcle yn y Sir yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth Fflecsi yn cynnwys dau lwybr ysgol ac mae mwy a mwy o bobl yn ei ddefnyddio.
- Parhau i ymateb yn effeithiol i nifer gynyddol o gladdedigaethau a cheisiadau am Angladdau Iechyd Cyhoeddus sy'n uwch na'r cyfartaledd blynyddol blaenorol.
- Yn ystod 2022/23, bu i'r gwasanaeth gaffael, rheoli prosiect a dylunio gwaith gwella priffyrdd / isadeiledd o dros £5 miliwn.
- Mae'r Cyngor wedi ennill gwobr am ddata strydoedd yng Ngwobrau Exemplar 2023, a oedd yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Straeon Cryf

- Mae'r tîm cydymffurfiaeth a hyfforddiant wedi datblygu a gweithredu nifer o raglenni hyfforddi mewnol, i'w cyflwyno i'r gweithlu ac aelodau staff. Mae cyfleoedd masnachol hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn darparu sesiynau hyfforddiant gweithredol i'r diwydiant ehangach.
- Mae cyflyrydd pridd PAS100 wedi'i ddarparu i breswylwyr a grwpiau cymunedol yn y sir.
- Cafodd polisi trwydded cerbydau diwygiedig ei gyflwyno mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn gwella diogelwch staff a gweithrediadau safle.

- Cynhaliwyd sawl digwyddiad cefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned trwy brosiect Caru Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, i leihau troseddau amgylcheddol a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol.
- Mae cyfleuster addysg Parc Adfer (gwastraff rhanbarthol i ynni) wedi croesawu nifer o grwpiau cymunedol newydd i ddysgu am y broses a lleihau gwastraff.
- Cyflwynwyd safon cyfathrebu portffolio er mwyn gwella cyfathrebu mewnol.
- Mae'r gwasanaeth wedi llunio Calendr Iechyd Meddwl a Lles, gyda'r nod o hyrwyddo digwyddiadau a allai gynorthwyo gweithwyr â materion sy'n cael effaith ar eu hiechyd a lles personol, gan ddarparu'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gael gafael ar gymorth a chyngor effeithiol. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn llwyddiannus hyd yma.
- Ymatebodd y gwasanaeth i ddau ddigwyddiad o eira trwm y tymor hwn, a amharodd yn sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd, gan arwain at gau nifer o ysgolion. Bu iddi fwrw eira ar 14 Ionawr 2023 ac ni ddiflannodd am dros 10 diwrnod. Roedd gweithrediadau cynnal a chadw dros y gaeaf ar waith trwy gydol y digwyddiad, 24 awr y diwrnod. Cwblhawyd 29 siwrne cerbyd graeanu, gan gwmpasu dros 16,000 km, a thaenu 1940 tunnell o halen. Defnyddiwyd adnoddau i gynorthwyo â thrin strydoedd mawr, meysydd parcio a mynwentydd â llaw. Defnyddiwyd dros 350 tunnell o halen i daenu halen â llaw ac ail-lenwi biniau halen a phentyrrau halen. Bu iddi fwrw eira ar 6 Mawrth 2023 ac ni ddiflannodd am 6 diwrnod. Fe wnaethom gwblhau 18 siwrne cerbyd graeanu yn cwmpasu dros 10,000 km mewn 6 diwrnod. Roedd y cerbydau graeanu ar waith 24 awr y dydd, yn taenu 1032 tunnell o halen. Taenwyd 100 tunnell o halen â llaw, ar gyfer trin strydoedd mawr, meysydd parcio a mynwentydd.
- Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r cynllun 20mya Cenedlaethol yn dilyn newid mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Bydd hwn yn un o'r prosiectau unigol mwyaf yng Nghymru i gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.
- Mae'r gwasanaeth wedi symud ymlaen â Gorchymyn Terfyn Cyflymder Cyfunol y Sir, yn dilyn prosiect adolygu terfynau cyflymder 7 mlynedd.
- Enillodd y Gwasanaethau Profedigaeth Wobr Rhwydwaith Perfformiad y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus am y Gwasanaeth Mynwentydd sydd wedi Gwella Fwyaf dros gyfnod o 3 blynedd.
- Mae System Rheoli Mynwentydd cwbl ddigidol a seiliedig ar gwmwl bellach yn fyw, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Mynwentydd digidol, cwbl ryngweithiol. Hefyd, parhau i ddatblygu nifer o brosiectau ehangu mynwentydd, yn ogystal ag archwilio'r dewisiadau ar gyfer ehangu'r gyfres bresennol o wasanaethau claddu yn y sir.

## Meysydd Gwella

- Yn 2022/23, gwelwyd dirywiad parhaus ym mherfformiad ailgylchu'r Cyngor, oherwydd cynnydd yn swm y gwastraff gweddillol bagiau bin du a oedd yn cael ei gasglu o eiddo preswyl, gan arwain at gosbau ariannol posibl ac felly, mae angen ystyried meysydd gwella.
- Dros y 12 mis nesaf, bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth contractwyr.

# 5.7 Portffolio: Prif Weithredwyr

## Perfformiad Cryf

- Cyflawnwyd a rhagorwyd ar darged Cynllun y Cyngor i greu'r punnoedd o werth cymdeithasol o fewn chwe mis cyntaf y flwyddyn (gyda dros £3m o werth cymdeithasol yn cael ei greu o fewn y chwe mis cyntaf o 2022/23, yn erbyn y targed blynyddol o £2.4m).
- Mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch wedi gwella o gymharu â 2021/22.
- Cafodd 77,677 o daliadau eu prosesu yn ystod Cyflogres 2022/23, gyda chywirdeb o 99.25%.
- Sefydlwyd y cyllidebau Refeniw, Cyfalaf a HRA yn llwyddiannus o fewn amserlenni statudol er gwaethaf yr hinsawdd ariannol.
- Wedi cyflawni 342 o hawliadau yswiriant yn y flwyddyn lle roedd 203 (59.36%) wedi'u cyflawni heb unrhyw gost i'r Cyngor.
- 100% o'r effeithlonrwydd wedi'i gynllunio yn cael ei gyflawni gyda'r gyllideb refeniw a gymeradwywyd, gan ragori ar y targed o 95%.

## Straeon Cryf

- Cafwyd perfformiad da mewn creu gwerth cymdeithasol o weithgareddau comisiynu a chaffael y Cyngor yn ystod 2022/23, gyda 90% o'r targed ar gyfer y nifer o gontractau a gefnogwyd yn cynnwys y gwerth cymdeithasol a gyflawnwyd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda sefydliadau partner o dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i sicrhau fod Asesiad Lles Lleol newydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2022/23, yn unol â gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bod hynny'n arwain y gwaith ymhellach i ddatblygu Cynllun Lles ar gyfer 2023-28.
- Mae penderfyniadau rhwng partneriaid i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd i gynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir y Fflint a Wrecsam (gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn disodli'r ddau GBC blaenorol – BGC Sir y Fflint a BGC Wrecsam).
- Cafodd nifer o ymgeiswyr eu hystyried ar gyfer prentisiaethau yn y Cyngor. Penodwyd cyfanswm o 26 o brentisiaid ar draws 14 disgyblaeth a bu iddynt ddechrau gweithio ym mis Medi 2022.
- Roedd cynnydd mewn presenoldeb ar y cwrs 'Sgiliau Hyfforddi i Reolwyr' yn ystod y flwyddyn.
- Cynnydd ym mhresenoldeb rheolwyr a gweithwyr mewn nifer o sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymwybyddiaeth straen ac ymwybyddiaeth ofalgar.
- Cafodd llawer o hyfforddiant polisi i ymarfer ei ddarparu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein Polisi Disgyblu newydd a'n Polisi Rheoli Presenoldeb diwygiedig, fel a ganlyn:

- o 7 Sesiwn Friffio ar y polisi disgyblu newydd, gyda 109 o reolwyr yn cymryd rhan
- o 5 sesiwn hyfforddi diwrnod llawn a arweiniodd at 61 o Swyddogion Ymchwilio hyfforddedig
- o 3 sesiwn hyfforddi a arweiniodd at 23 o Swyddogion Awdurdodedig hyfforddedig
- o 2 sesiwn gweinyddu achos, lle cafodd 10 o weinyddwyr eu hyfforddi ar sut i gefnogi polisi disgyblu
- o 7 Sesiwn Rheoli Presenoldeb, lle cafodd 87 o reolwyr a goruchwylwyr eu hyfforddi ar y polisi.

- Parhau gyda'r broses yn ffurfiol o newid System Gwybodaeth Ariannol y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi gallu cynnig gwerth £16m o gymorth ariannol uniongyrchol yn 2022/23 ar gyfer meysydd fel taliadau hunan ynysu, gwelliannau tâl salwch statudol, taliadau uniongyrchol ar gyfer prydau ysgol am ddim a thaliadau tanwydd dros y gaeaf a gafodd eu cyflawni trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Meysydd Gwella




- Roedd gwariant asiantaethau ar gyfer 2022/23 yn uwch na'r targed corfforaethol, yn rhannol oherwydd bod nifer o swyddi gwag mewn gwasanaethau rheng flaen, sy'n gofyn am adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau.
- Er y bu gwelliant o gymharu â 2021/22, ni chyflawnwyd y targed corfforaethol ar gyfer nifer y diwrnodau a gollwyd fesul gweithiwr cyfwerth â llawn amser gan bob portffolio.
- Mae'r amrywiad rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb a osodwyd yn 0.9% yn uwch na'r targed o 0.5%. Nod y gwasanaeth yw gwneud mwy o waith gyda phortffolios i leihau hynny dros y flwyddyn ariannol nesaf.
- Y cyfanswm gwirioneddol o anfonebau a dalwyd o fewn 32 diwrnod oedd 94.3 sydd fymryn yn llai na'r targed o 95%. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda phortffolios i wella hyn dros y flwyddyn ariannol nesaf.

# 6. Cynnydd ar Gynllun y Cyngor – Ffeithlun o statws COG

## 6.1 Asesiad o'n Perfformiad

Mae'r tabl isod yn cynnig trosolwg o gynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn.

Mae'r allwedd isod yn diffinio'r Coch / Oren / Gwyrdd (COG) ar gyfer y mesuryddion sydd wedi'u nodi yn yr Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn.


| Allwedd Statws Perfformiad | |
|---|---|
|  | **Cynnydd Cyfyngedig** - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn |
|  | **Cynnydd Boddhaol** - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan |
|  | **Cynnydd Da** - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn |

| Allwedd Statws Tueddiadau | |
|---|---|
|  | **Dirywiad** - O'i gymharu â data llynedd, mae canlyniad y perfformiad wedi gostwng |
|  | **Cynhaliwyd** - O'i gymharu â data llynedd, mae'r perfformiad yr un fath â'r flwyddyn flaenorol |
|  | **Wedi gwella** - O'i gymharu â data llynedd, mae canlyniad y perfformiad wedi gwella |

## 6.2 Crynodeb Perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23

Mae perfformiad 2022/23 yn erbyn Mesuryddion Cynllun y Cyngor wedi'i grynhoi yn y siart isod.

### Siart 1a: Mesuryddion Perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23





I grynhoi, dyma ein cynnydd cyffredinol yn erbyn y mesuryddion;


- Roedd 71 (64%) o ddangosyddion/ mesuryddion wedi cyflawni'r targed neu'n cymharu'n well i 73% yn 2021/22
- Mae 14 (13%) o ddangosyddion/ mesuryddion yn cael eu monitro, o gymharu â 9% yn 2021/22
- Ni lwyddodd 25 (22%) o ddangosyddion/ mesuryddion i gyflawni'r targed, o gymharu ag 18% yn 2021/22
- Nid yw 1 mesurydd (1%) wedi cael ei ddiweddaru'n llawn ar gyfer Diwedd y Flwyddyn (Ch4)

*Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, ni allwn adrodd yn erbyn 1 o'r mesuryddion ar gyfer 2022/23*

## Siart 1b: Cymharu Statws COG y Perfformiad ar gyfer Mesuryddion Cynllun y Cyngor - 2020/21, 2021/22 a 2022/23




## Siart 2a: Statws COG Gweithredu Cynllun y Cyngor 2022/23





I grynhoi, dyma ein cynnydd cyffredinol yn erbyn y camau gweithredu;

- Gwnaed cynnydd da (gwyrdd) mewn 77% (123) o weithgareddau
- Gwnaed cynnydd boddhaol (oren) mewn 19% (31) o weithgareddau
- Ychydig o gynnydd (coch) a wnaed mewn 4% (6) o weithgareddau

## 6.3 Crynodeb o Ddata Perfformiad Cynllun y Cyngor

Mae'r tabl isod yn cymharu data perfformiad o 2017/18 hyd at 2022/23.


### Siart 3: Canran o Fesuryddion Cynllun y Cyngor yn Erbyn y Targed - 2017/18, 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23



# 7. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Pum Ffordd o Weithio

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn enghreifftiau o berfformiad cadarnhaol yn ystod 2022/23 ac maent yn dangos sut mae'r Cyngor wedi ystyried y pum ffordd o weithio.

## Astudiaeth Achos 1: Gosod Mannau Gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan mewn Meysydd Parcio sy'n Eiddo i'r Cyngor



Ym mis hydref 2018, cymeradwyodd y Cabinet, strategaeth y Cyngor i fabwysiadu rôl 'galluogwr' ar gyfer hwyluso'r gwaith o osod mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, yn hytrach nag ymgymryd â rôl darparwr uniongyrchol. Oherwydd y risgiau technegol sy'n gysylltiedig â'r sector hwn sy'n newid o hyd, dyma ddull a oedd yn sicrhau nad oedd y Sir yn cael ei llethu ag isadeiledd wedi dyddio neu ei ddisodli, yn ogystal â chynorthwyo'r Cyngor i ymrwymo i gytundeb prydles hirdymor gyda chyflenwyr penodol, gan ddarparu incwm hirdymor posibl.

Yn dilyn dyfarniad llwyddiannus cyllid grant trwy Gadwyn Clwyd, bu i'r Cyngor gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb i nodi'r lleoliadau mwyaf addas ar draws y Sir ar gyfer gosod isadeiledd gwefru cerbydau trydan hygyrch i'r cyhoedd, gan ystyried y meini prawf allweddol megis anghenion busnes ac ymarferoldeb ariannol.

Ar ôl cwblhau'r astudiaeth uchod a nodi prif safleoedd blaenoriaeth y Cyngor, llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid 'Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd', a ganiataodd iddynt osod 15 o fannau gwefru deuol ar gyfer cerbydau trydan yn llwyddiannus, yn yr 8 lleoliad canlynol ym mis Ionawr eleni (2023).

| Safle | Math o Leoliad | Manylion y Man Gwefru |
|---|---|---|
| Sgwâr Griffiths, Yr Wyddgrug | Preswyl / Canol y Dref | Mae gwefrwyr cyflym wedi'u gosod yn y lleoliadau hyn, oherwydd natur y defnydd a ragwelir.<br><br>*Mae gosod x15 o wefrwyr cerbydau trydan deuol ar gyfer cerbydau trydan yn galluogi gwefru hyd at 30 o gerbydau ar y tro. |
| Richard Heights, Y Fflint | Preswyl / Canol y Dref | |
| Castle Street, Y Fflint | Twristiaeth / Preswyl / Hamdden | |
| Allt Goch, Y Fflint | Preswyl / Canol y Dref | |
| Pierce Street, Queensferry | Canolfan Leol | |
| Gerddi'r Tŵr, Treffynnon | Cyhoeddus / Canolfan Leol | |
| Precinct Way, Bwcle | Canolfan Leol | |
| Canolfan Hamdden y Pafiliwn, Y Fflint | Canolfan Hamdden / Canolfan Leol | |

Fel sy'n ofynnol o dan y Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd, mae gan breswylwyr fynediad digyfyngiad 24/7 i bob maes parcio, fel bod modd iddynt wefru eu cerbydau trydan yn ystod y dydd a thros nos. Mae'r mannau gwefru yn bodloni anghenion defnyddwyr anabl ac maent wedi'u marcio a'u harwyddo'n ddwyieithog. Mae Gorchmynion Cyfreithiol Meysydd Parcio wedi cael eu diwygio hefyd i adlewyrchu gosod y mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan a gellir eu gweithredu'n effeithiol trwy Swyddogion Gorfodi'r Cyngor.

Nod y prosiect yw tanio datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan y Sir, yn ogystal ag ysgogi buddsoddiad yn y Sector Preifat (fel y nodir yn strategaeth gydnabyddedig yr Awdurdod i weithredu fel 'galluogwr'). Yn ogystal â darparu isadeiledd angenrheidiol yn y Sir, bydd gosod y mannau gwefru hefyd yn gweithredu fel y catalydd gofynnol ar gyfer cynyddu hyder yn lleol, a thrwy hynny roi hwb y mae mawr ei angen i berchnogion cerbydau trydan ar draws y rhanbarth.

**Hirdymor**

Bydd cam cyntaf y Cyngor o osod mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan yn hwyluso'r newid sydd ei angen o ran ymddygiad preswylwyr tuag at newid i ddulliau cludiant mwy ecogyfeillgar a chynaliadwy. Bydd presenoldeb gweledol yr isadeiledd yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i newid hinsawdd a gweledigaeth am ddyfodol di-garbon fel y nodir mewn deddfwriaeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.

Mae'r newid i ddewisiadau teithio carbon isel yn cyd-fynd â dyheadau hirdymor Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Rhoddir cefnogaeth gref i'r cysyniad yng Nghynllun y Cyngor hefyd, o dan y flaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd', a ategir gan ddulliau'r Cyngor o ran cludiant cynaliadwy ac integredig.

### Atal

Bydd ehangu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan y Sir yn ategu ymrwymiad y Cyngor i newid hinsawdd, yn ogystal â hybu gweledigaeth am ddyfodol di-garbon, fel y nodir yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Bydd cyflwyno'r isadeiledd gofynnol hefyd yn rhoi hwb i statws y Cyngor fel 'aelod allweddol' yn y rhanbarth, yn ogystal â lleihau'r risg o gefnu ar y cyhoedd, o ran twristiaeth, datblygiad preswyl a thwf busnes.

Mae manteision amlwg o ran ansawdd aer i ddefnyddio cerbydau trydan ar y rhwydwaith priffyrdd, gan eu bod yn lleihau allyriadau Co2. Bydd gwella ansawdd yr aer o fudd i gymunedau mwyaf difreintiedig y Cyngor, sy'n aml yn byw mewn ardaloedd â'r boblogaeth ddwysaf yn y sir. Bydd hefyd o gymorth mawr i'r Cyngor gyda chyrraedd y targedau datgarboneiddio sydd wedi'u gosod o fewn deddfwriaeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.

### Integreiddio

Mae cyflwyno cerbydau trydan yn allweddol o ran llwyddiant rhwydwaith cludiant integredig, cynaliadwy a bydd yn elfen annatod o adolygiad y Cyngor o'i strategaeth drafnidiaeth integredig, gan gyfrannu hefyd at rwydwaith gwefru cerbydau trydan Cymru gyfan.

Er nad oes strategaeth ranbarthol wedi'i llunio eto, y gobaith yw y bydd gweithredu'r prosiect uchod yn hwyluso datblygiad fframwaith caffael ar y cyd yn y dyfodol, er mwyn safoni darpariaeth yr isadeiledd gwefru, modelau gweithredu a chynnal a chadw, gan ganiatáu dull cydweithredol a rhanbarthol ar gyfer y rhwydwaith o fannau gwefru ar draws Gogledd Cymru.

Yn ogystal â chydnabod y berthynas rhwng newidiadau teithio trawsffiniol a chynaliadwyedd economïau lleol, mantais arall sydd ynghlwm â dull rhanbarthol yw elfen angenrheidiol cysondeb ac argaeledd isadeiledd gwefru. Pe bai rhwydwaith gwefru cerbydau trydan y rhanbarth yn cael ei safoni, does dim amheuaeth mai dyma'r catalydd gofynnol ar gyfer cynyddu hyder yn lleol, a thrwy hynny roi hwb y mae mawr ei angen i berchnogion cerbydau trydan ar draws y rhanbarth.

### Cydweithio

Er mwyn ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am gerbydau trydan a'r isadeiledd gwefru cysylltiedig, mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru (LlC), awdurdodau cyfagos ac ymgynghorwyr arbenigol.

Mae strategaeth cerbydau trydan drosfwaol y Cyngor yn cefnogi a chydnabod pwysigrwydd cydweithio â'r Sector Preifat (fel y nodir yn strategaeth gydnabyddedig yr awdurdod i weithredu fel 'galluogwr'). Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd newidiadau trawsffiniol strategol i'r economi leol o ran symudiadau cymudwyr, busnesau ac ymwelwyr.

Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu perthynas gydweithredol â budd-ddeiliaid allweddol yn y diwydiant. Mae'r isadeiledd a osodwyd yn ddiweddar wedi'i gofrestru ar y gofrestrfa mannau gwefru genedlaethol a mapiau statws byw eraill megis Zap-Map, lle gall defnyddwyr wirio pa fannau gwefru sydd ar gael.

Darparwyd 25% o arian cyfatebol gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer y cynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar.

**Cyfranogi**

Mae'r astudiaethau sydd wedi'u cwblhau hyd yma yn dangos ymgysylltiad y Cyngor â budd-ddeiliaid allweddol trawsffiniol a Llywodraeth Cymru.

Cafodd aelodau lleol eu cynrychioli trwy gydol y broses ac maent wedi bod yn allweddol wrth godi ymwybyddiaeth a gofynion eu cymunedau lleol.

Fel rhan o'r cais am gyllid grant y Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd', lluniodd Gyngor Sir y Fflint holiadur ar gyfer casglu gwybodaeth, i'w anfon at y cymunedau a fydd yn cael eu heffeithio, er mwyn llywio'r gwaith o ehangu rhwydwaith cerbydau trydan y Cyngor ymhellach.

Mae adran wedi'i llunio hefyd ar wefan Cyngor Sir y Fflint er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mannau gwefru a hyrwyddo'r defnydd ohonynt ymhlith preswylwyr a'r cyhoedd. I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod.

**https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Introduction-of-Electric-Vehicle-EV-Charging-Infrastructure.aspx**

## Astudiaeth Achos 2: Polisi Torri Glaswellt Newydd sy'n Hyrwyddo Bioamrywiaeth

Mae torri glaswellt yn elfen bwysig o gynnal a chadw mannau cyhoeddus, ond gall dulliau traddodiadol o dorri glaswellt gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Mae'r polisi newydd sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â dull mwy cynaliadwy o dorri glaswellt, gyda'r nod o gefnogi natur a lles cymunedau lleol.

Mae'r polisi newydd yn ystyried lleihau pa mor aml y caiff glaswellt ei dorri, peidio â thorri rhai ardaloedd o laswellt er mwyn caniatáu i flodau gwyllt dyfu a chefnogi bioamrywiaeth, gan fod yn ystyriol o ddiogelwch ar y priffyrdd. Yn ogystal â helpu i gefnogi bioamrywiaeth, gall cymunedau lleol elwa o'r dulliau hyn, megis trwy wella estheteg ddeniadol mannau cyhoeddus, lleihau sŵn a llygredd aer, a darparu cyfleoedd i unigolion gysylltu â natur.

Bu i'r Cyngor ganiatáu defnyddio llai o chwynladdwr seiliedig ar glyphosate hefyd, a ddefnyddir yn aml i drin chwyn, ond sydd wedi'i gategoreiddio fel "carsinogenig tebygol" gan Sefydliad Iechyd y Byd, yn ogystal â symud tuag at reoli glaswelltiroedd.

Mae Cyngor Sir y Fflint eisoes wedi buddsoddi cyllid grant mewn system Foamstream, sy'n defnyddio ewyn poeth yn cynnwys startsh planhigion i reoli chwyn, gan gronfa Llefydd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Sir y Fflint bellach yn ystyried dulliau amgen i ddefnyddio glyphosate ac maent yn edrych ar ddewisiadau sy'n well ar gyfer preswylwyr a'r amgylchedd.

Er mwyn datblygu ased glaswelltir mwy amrywiol, mae'r gwelliannau'n cynnwys creu mannau blodau gwyllt ac ardaloedd lle caiff glaswellt ei dorri'n llai aml, a gefnogir trwy gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r polisi yn enghraifft wych o'r math o fentrau y gall awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn gwella cynaliadwyedd a lles cymunedol.

Mae'r strategaeth bellach yn cynnwys mesurau i hyrwyddo natur yn yr holl lefydd a nodir ynddo, megis mannau agored cyhoeddus ac ymylon ffyrdd, blaenoriaethu diogelwch defnyddwyr ffyrdd a sicrhau bod safleoedd yn bwrpasol, gan greu ffiniau trwy dorri glaswellt, a defnyddio arwyddion lle bo'n briodol.

Dyma gam gweithredu hollbwysig tuag at sefydlu nifer helaeth o gynefinoedd ledled y sir, cefnogi peillwyr hanfodol ac amgylchedd naturiol iach, sy'n greiddiol ar gyfer lles cymunedau, o ystyried mai dim ond 2% o gynefinoedd glaswelltir sydd ar ôl yn y DU.

Yn gyffredinol, mae'r polisi torri glaswellt newydd sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Sir y Fflint yn gam i'r cyfeiriad cywir tuag at annog cynaliadwyedd a lles cymunedol. Mae'n amlygu sut y gall llywodraethau lleol weithredu mewn modd realistig i ddiogelu bioamrywiaeth a gwella lles cymunedol, yn ogystal â chadw at ddefnyddio mannau cyhoeddus yn ôl eu defnydd bwriadol.

### Hirdymor

Trwy dorri glaswellt mewn modd mwy cynaliadwy, gall y Cyngor gyfrannu at amgylchedd iachach a mwy cydnerth, cefnogi bioamrywiaeth, a gwella lles cymunedau lleol trwy beidio â thorri'r glaswellt mewn rhai ardaloedd neu leihau pa mor aml y caiff glaswellt ei dorri er mwyn caniatáu i flodau gwyllt dyfu, darparu bwyd a chynefinoedd i wenyn, gloÿnnod byw a pheillwyr eraill. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi'r ecosystem ehangach, ac yn cyfrannu at amgylchedd iachach a mwy cydnerth.

Gall caniatáu i flodau gwyllt dyfu a thorri glaswellt yn llai aml, wneud mannau cyhoeddus yn fwy deniadol, a chyfrannu at amgylchedd brafiach a mwy deniadol i gymunedau lleol yn y dyfodol.

Dangoswyd bod cysylltu â natur yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles. Trwy hyrwyddo bioamrywiaeth a rhoi cyfleoedd i bobl gysylltu â natur, gall y polisi torri glaswellt newydd gyfrannu at les hirdymor cymunedau lleol.

### Atal

Yn draddodiadol, roedd glaswellt yn cael ei dorri'n aml er mwyn cynnal taclusrwydd mannau cyhoeddus, ond mae'r dull hwn yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Dros amser, gall colli cynefinoedd a ffynonellau bwyd oherwydd torri glaswellt yn rheolaidd gael effaith sylweddol ar boblogaeth peillwyr, megis y gwenyn a gloÿnnod byw, a all, yn ei dro, effeithio ar yr ecosystem ehangach. Trwy dorri glaswellt yn llai aml a pheidio â'i dorri mewn rhai ardaloedd, bwriad y polisi newydd yw atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a'r problemau sy'n gysylltiedig â hynny, yn hytrach nag ymdrin â'r arwyddion trwy blannu blodau gwyllt neu osod cychod gwenyn mewn ardaloedd sydd eisoes wedi gweld dirywiad.

Yn hynny o beth, mae'r polisi torri glaswellt newydd yn mabwysiadu dull ataliol, trwy geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y broblem, yn hytrach na dim ond ymateb i'r arwyddion. Trwy hyrwyddo bioamrywiaeth, mae'r polisi'n helpu cynnal ecosystem iach a gwydn ac yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy i'r gymuned leol.

### Integreiddio

Mae'r polisi'n hyrwyddo dull integredig trwy ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol ac effeithiau hirdymor gweithredoedd y Cyngor ar yr amgylchedd, yr economi, y gymdeithas a'r diwylliant. Nod y polisi yw cefnogi bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd i fywyd gwyllt, sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau addysgol a diwylliannol.

Mae'r polisi wedi'i lunio i gael ei gynnwys mewn polisïau a strategaethau eraill, megis strategaeth newid hinsawdd y Cyngor a thrwy gyd-fynd â'r strategaethau ehangach hyn, nod y polisi yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau cynaliadwyedd ehangach a sicrhau nad yw camau gweithredu mewn un maes yn cael effaith negyddol ar eraill.

### Cydweithio

Roedd y polisi'n ymwneud â chydweithio rhwng budd-ddeiliaid gwahanol, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, cymunedau lleol, Llywodraeth Cymru, cydweithwyr ar draws portffolio a chyflenwyr a sefydliadau amgylcheddol.

Roedd y gwaith o lunio'r polisi newydd yn cynnwys ymgynghori a chydweithio â chymunedau lleol a sefydliadau amgylcheddol, er mwyn deall eu hanghenion a'u pryderon a sicrhau bod y polisi yn cael ei lunio gyda'u mewnbwn. Mae'r cydweithio'n helpu i sicrhau bod y polisi yn cyd-fynd ag anghenion a gwerthoedd y gymuned leol, a'u bod nhw'n ei gefnogi.

Yn ychwanegol, mae'r polisi'n hyrwyddo cydweithio trwy annog cymunedau lleol i gymryd rôl weithredol yn y gwaith o gynnal a chadw a rheoli mannau cyhoeddus. Er enghraifft, gallai'r polisi gynnwys gweithio â grwpiau cymunedol i nodi ardaloedd a fyddai'n gallu elwa o dorri glaswellt

yn llai aml a monitro llwyddiant y dull newydd. Mae'r cydweithio'n helpu i feithrin perthnasoedd cadarn rhwng y Cyngor a chymunedau lleol a gall hefyd helpu rhoi grym i gymunedau lleol gymryd perchnogaeth o'r mannau cyhoeddus yn eu hardal.

**Cyfranogi**

Gall y polisi gael effaith gadarnhaol ar les y gymuned leol trwy ddarparu cyfleoedd i unigolion o bob oed ac amrywiaeth gysylltu â natur a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Trwy greu mannau cyhoeddus mwy naturiol a bioamrywiol, mae'r polisi'n annog pobl i dreulio amser yn yr awyr agored a gall helpu gyda hybu lles corfforol a meddyliol.

## Astudiaeth Achos 3: Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi

### Trosolwg Byr o'r Prosiect

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei chyfeiriad strategol a'i dull ar gyfer Creu Lleoedd* ar draws Cymru yn ddiweddar. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod lleol ar draws Cymru i lunio 'Cynlluniau Creu Lleoedd' er mwyn nodi sut byddant yn adnabod, cynllunio a chyflwyno prosiectau Creu Lleoedd ym mhob un o'u trefi. Mae LIC wedi cadarnhau y bydd rhaid cael Cynlluniau Creu Lleoedd cyfredol i gael mynediad at gyllid grant ar gyfer adfywio yn y dyfodol.

Mewn ymateb i hyn, mae Tîm Adfywio'r Cyngor wedi datblygu dull ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl leol a dod â budd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol ynghyd i lunio a maes o law cyflwyno Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi lleol. Mae'r astudiaeth achos hon yn ymwneud â'r cynnydd hyd yma gyda'r tri chynllun cyntaf o saith sydd i'w llunio ar gyfer canol trefi ar draws Sir y Fflint: Bwcle, Treffynnon a Shotton.

**Gellir disgrifio Creu Lleoedd fel proses sy'n cynnwys cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau, er mwyn rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i ddatblygiad lleoliad yn y dyfodol, ac os caiff hyn ei wneud yn llwyddiannus, gallai gyd-fynd yn well ag anghenion y boblogaeth leol a chreu bywiogrwydd.*

### Ymgysylltu ac Ymgynghori â Phobl Leol

Mae'n bwysig bod pobl leol yn gallu bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r Cynlluniau Creu Lleoedd sydd ar y gweill ar gyfer canol eu trefi, ac er mwyn casglu eu barn, cafodd ymgynghoriad ar-lein rhyngweithiol ei lansio yn ychwanegol i'r digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd drws agored, wyneb yn wyneb a gynhaliwyd.

Cymerodd dros 4400 o bobl leol ran yn yr ymgynghoriadau ar-lein, a oedd yn cael eu rheoli trwy wefan 'Give My View' trwy bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a chwmni o'r enw 'Built-ID'. Cynhaliwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl leol o fewn cyffiniau canol y trefi i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein, a oedd ar agor am 17 diwrnod yn gynharach yn 2023. Casglwyd llawer iawn o wybodaeth trwy'r ymgynghoriad ar-lein, ac yn ogystal â hynny, mynychodd 130 o bobl y digwyddiadau wyneb yn wyneb a oedd yn rhan o'r broses ymgynghori. Mae'r wybodaeth a'r canfyddiadau a gasglwyd yn lleol, ynghyd â'r data a'r wybodaeth ystadegol a gasglwyd hefyd ym mhob tref wedi dechrau llywio canolbwynt ein Cynlluniau Creu Lleoedd a pha weithgareddau sydd eu hangen yn ein trefi yn y dyfodol.

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am Greu Lleoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein ar wefan y Cyngor: **https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Regeneration/What-we-are-currently-working-on/Place-Making-in-Flintshire.aspx**

### Dull / gweledigaeth hirdymor

Mae dull Creu Lleoedd Sir y Fflint yn cyd-fynd yn agos â dull strategol 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2020, sy'n anelu yn y tymor canolig/ hirdymor (10-15 mlynedd) i leoli gwasanaethau ac adeiladau yng nghanol trefi er mwyn helpu rhoi bywyd newydd i ganol trefi ledled Cymru. Mae hyn yn hanfodol yn sgil pandemig covid-19, y dirywiad mewn gwerthiant manwerthu a newidiadau i'r modd y caiff canol trefi eu defnyddio. Fel y rhan fwyaf o drefi yn y DU, mae Sir y Fflint wedi colli nifer o brif fanwerthwyr o ganol ein trefi a gwelwyd dirywiad cyffredinol yn ansawdd yr hyn sydd ar gael yng nghanol ein trefi.

Nod y Cynlluniau Creu Lleoedd sydd ar y gweill ar gyfer canol trefi yn Sir y Fflint yw nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu y gellir mynd i'r afael â hwy yn y tymor byr (ymhen yr ychydig flynyddoedd nesaf) yn ogystal â sefydlu camau a gweledigaeth tymor canolig/hirdymor i gyflawni hyn.

### Atal

Nod y cynlluniau creu lleoedd sydd ar y gweill yw atal dirywiad pellach yng nghanol trefi Sir y Fflint – yn benodol materion megis gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a nifer yr eiddo sy'n wag neu mewn cyflwr gwael, yn ogystal â cholli busnesau manwerthu. Defnyddir barn ac anghenion pobl leol a budd-ddeiliaid allweddol i lywio'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol er mwyn creu newid cadarnhaol a bywiogrwydd yng nghanol trefi ledled Sir y Fflint. Cyflwynir y cynlluniau i sicrhau nad yw'r trefi'n dirywio ymhellach, ar y cyd â llawer o bartneriaid a budd-ddeiliaid.

### Integreiddio

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a'u partneriaid roi iechyd a bywiogrwydd canol trefi wrth wraidd eu polisïau a'u penderfyniadau, fel rhan o'u penderfyniadau strategol a darpariaeth gwasanaethau ar lefel weithredol. Felly, mae'r Cynlluniau Creu Lleoedd sydd ar y gweill ar gyfer Sir y Fflint yn rhan greiddiol o sicrhau bod gweithgarwch creu lleoedd yn ddull cynaliadwy sydd wedi'i integreiddio'n dda o fewn y Cyngor, ond hefyd o fewn gwaith ein partneriaid a'n budd-ddeiliaid allweddol.

### Cydweithio

Mae llunio Cynlluniau Creu Lleoedd yn Sir y Fflint wedi bod yn gyfle gwych i gydweithio mwy ar draws gwasanaethau yn y Cyngor, yn ogystal â gyda phartneriaid allweddol a sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol eraill. Mae grwpiau o fudd-ddeiliaid â ffocws gweithredol a strategol, sy'n gyfrifol am wasanaethau seiliedig ar 'le' a 'phobl' bellach yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried data, canfyddiadau ymgynghoriadau â'r cyhoedd a chanlyniadau adroddiadau technegol er mwyn llywio a chyfrannu at lunio Cynlluniau Creu Lleoedd a bod yn gyfrifol am eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae cryn gynnwrf ymysg y budd-ddeiliaid hyn, sy'n credu bod y dull hwn o fudd iddynt yn eu rolau, ac yn bwysicaf oll i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

### Cyfranogi

Mae lefel ymrwymiad a chyfranogiad y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol yn ystod y gwaith o lunio Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Bwcle, Treffynnon a Shotton wedi bod yn ysgubol, mwy na theirgwaith nifer y bobl roeddem wedi rhagweld fyddai'n ymateb i'r ymgynghoriad Creu Lleoedd mewn gwirionedd. Bu i fwy na 1500 o bobl leol ddarparu eu manylion cyswllt wrth lenwi'r ymgynghoriad ar-lein, er mwyn cael gwybod am gynnydd a chanlyniad gwaith y Cynllun Creu Lleoedd a lle rydym arni gyda'r siwrne creu lleoedd. Mae'n bwysig bod y Cynlluniau Creu Lleoedd sydd ar y gweill gennym yn ddogfennau gweithredol deinamig sy'n adlewyrchu anghenion ein cymunedau, ac maent eisoes wedi dangos diddordeb amlwg mewn siapio dyfodol canol ein trefi.

## Delwedd 1: Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad Ar-lein yn ymwneud â Bwcle, Treffynnon a Shotton, a gwblhawyd ym mis Chwefror 2023

### Canlyniadau Terfynol: Cynllun Creu Lleoedd Sir y Fflint

**19/12/2022 – 13/02/2023**

Defnyddwyr

**Cyfanswm yr Ymweliadau**
**8,607**
Ymweliadau â'r posiect

**Pleidleiswyr**
**4,401**
Nifer y bobl a bleidleisiodd

**Pleidleisiau**
**37,519**
Cwestiynau a atebwyd

**Negeseuon e-bost**
**2,012**
Negeseuon e-bost unigryw gan bleidleiswyr yn gadael adborth agored

**Atebion ansoddol**
**9,609**
Darn o adborth ysgrifenedig

**Ymatebion wedi'u hanodi**
**3,915**
Nifer yr ymatebion a adawyd ar holl gwestiynau anodi'r prosiect

### Arolygon

**Canol Tref Bwcle**
**2,361**
Pleidleiswyr

**Canol Tref Treffynnon**
**990**
Pleidleiswyr

**Canol Tref Shotton**
**1,141**
Pleidleiswyr

**Segmentu**

### Beth yw eich perthynas â Sir y Fflint?



**Preswylydd neu weithiwr ym Mwcle** — 2218 — **48%**



**Preswylydd neu weithiwr yn Shotton** — 936 — **20%**



**Preswylydd neu weithiwr yn Nhreffynnon** — 850 — **18%**



**Preswylydd Sir y Fflint ehangach** — 636 — **14%**

## Delwedd 2: Dwy o'r Baneri Creu Lleoedd yn cael eu Harddangos yn y Digwyddiad Ymgynghori Wyneb yn Wyneb â'r Cyhoedd



## Astudiaeth Achos 4: Cymorth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu'r Gwasanaeth i Deuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar







Mae cyflwyno'r hyfforddiant TalkBoost yn sicrhau bod staff ysgolion yn fwy parod i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd y plentyn.

Mae 'Talk Boost' yn ymyrraeth ar gyfer plant sydd angen cymorth â siarad a deall geiriau, er mwyn rhoi hwb i'w sgiliau iaith a lleihau'r bwlch rhyngddyn nhw a'u cyfoedion.

Mae 86% o ysgolion Sir y Fflint wedi'u hyfforddi yn rhaglenni 'TalkBoost' ar hyn o bryd. Felly, wrth symud ymlaen i'r cyfnod adrodd nesaf, canolbwyntir ar gyflwyno'r rhaglenni, sicrhau bod staff yn teimlo bod yr offer a'r hyder ganddynt i gynnal yr ymyraethau â phlant yn yr ysgol a'u bod yn rhannu'r data â'r Hyfforddwyr, yr Hyfforddwr Technegol Therapi Iaith a Lleferydd a'r Ymgynghorydd Dysgu – Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, i sicrhau mesur ac effaith y rhaglen 'TalkBoost'.

### Cydweithio

Cydweithio rhwng Rhaglen Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ac Awdurdod Addysg Lleol Sir y Fflint - Mae'r cydweithio rhwng Tîm Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar a'r Awdurdod Addysg Lleol wedi sicrhau bod y rhaglen TalkBoost yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno'n llwyddiannus, yn ogystal â chynnig cefnogaeth barhaus i'r ysgolion sy'n gweithredu'r ymyrraeth. Mae gwybodaeth y ddau hyfforddwr am y blynyddoedd cynnar, addysg, iaith a lleferydd wedi atgyfnerthu'r prosiect, yn ogystal â helpu i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith da â staff ysgolion.

### Integreiddio

Mae mabwysiadu dull cydweithredol o gyflwyno'r Rhaglen TalkBoost wedi sicrhau model darparu cyson, gyda phob ysgol gynradd yn cael eu targedu a'u hannog i gymryd rhan yn yr hyfforddiant rhad ac am ddim.

Mae'r hyfforddwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y rhaglen TalkBoost yn rhan o'r hyn y mae ysgolion yn ei gynnig i blant, er mwyn sicrhau bod anghenion datblygiad iaith a lleferydd plant yn cael eu cefnogi cyn gynted â phosibl, i helpu gyda:

- Lleihau'r bwlch, er mwyn caniatáu i blant ddal i fyny â'u cyfoedion
- Olrhain cynnydd disgyblion

### Cyfranogi

Trwy hyfforddi cymysgedd o Athrawon a Chymorthyddion Addysgu, mae'r Cyngor yn sicrhau bod gan staff ysgol fynediad at wybodaeth ac adnoddau i'w galluogi i ddarparu cymorth iaith a lleferydd ychwanegol i bob plentyn sydd ei angen. Yn ogystal, sicrhau bod gan bob aelod o staff mewn ysgolion yr adnodd hyfforddiant ychwanegol hwn i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caniatáu i blant o bob cefndir gael mynediad at gefnogaeth gynnar er mwyn eu galluogi i ddal i fyny â'u cyfoedion a chael y dechrau gorau mewn bywyd, gan liniaru problemau hirdymor sy'n ymwneud ag oedi o ran iaith a lleferydd.

### Hirdymor

Yn y tymor byr, bydd angen i ysgolion a phartneriaid fuddsoddi amser yn y broses ymhen amser, yn ogystal â chyllid ar gyfer darparu'r hyfforddiant, fodd bynnag, darperir cyllid trwy raglen Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ar hyn o bryd.

Bydd y buddsoddiad hwn yn cryfhau sgiliau a phrosesau dros gyfnod o amser, i ddatblygu ymyriad effeithiol sy'n ofynnol ar gyfer plant sy'n dechrau yn y system addysg.

Yn yr hirdymor, bydd gan blant sgiliau iaith a lleferydd gwell, byddant yn cyrraedd safon addysg uwch ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, bydd cynnydd mewn sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio, a fydd maes o law o fudd i'r plant wrth iddynt droi'n oedolion, gan ganiatáu gwell cyfleoedd ar gyfer perthnasoedd cymdeithasol a rhagolygon swyddi, yn enwedig i ddynion, a lleihad mewn anhwylderau iechyd meddwl a gostyngiad yn y system Cyfiawnder Ieuenctid.

### Atal

Mae darparu'r hyfforddiant hwn i ysgolion a phartneriaid sy'n gweithio â phlant iau yn rhoi gwell cyfle i wneud yr ymyriadau priodol trwy nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen cyn gynted â phosibl, a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd pob plentyn yn cyflawni eu potensial yn y dyfodol.

# 8. Cydraddoldeb

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi cofrestru ar gyfer y Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr, gan ymrwymo i wrando ar ddioddefwyr troseddau casineb a'u cefnogi i adrodd am bryderon. Mae gennym amrywiaeth eang o gyrsiau'n ymwneud â chydraddoldeb ar gael i weithwyr, ac rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant tuedd diarwybod a hyfforddiant ymwybyddiaeth niwroamrywiaeth.

Rydym wedi adolygu cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru er mwyn nodi camau weithredu ar gyfer y Cyngor. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28. Mae rhai gwasanaethau bellach wedi dechrau adolygu eu data cydraddoldeb er mwyn adolygu unrhyw anghymesuredd ac anghyfartaledd ar gyfer unigolion â nodweddion gwarchodedig a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd.

Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn diwrnodau a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth megis mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, wythnos ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a Diwrnod Cofio'r Holocost.

# 9. Y Gymraeg

Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi parhau i gefnogi Menter Iaith Fflint a Wrecsam i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo a rhannu ein treftadaeth Gymreig. Cafodd pecynnau gweithgareddau eu darparu i bob cartref gofal yn y sir, gan gynnwys y rhai yn y sector annibynnol, er mwyn cefnogi pobl hŷn i gymryd rhan yn y dathliadau.

Rydym yn falch iawn o gyflawniadau disgyblion Ysgol Maes Garmon. Bu Darpariaeth Ieuenctid Integredig y Cyngor yn cydweithio â grŵp o bobl ifanc o Ysgol Maes Garmon ar gyfer prosiect peilot 'Cân a Lles'. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan y canwr a'r cyfansoddwr, Tom Collins, a oedd yn cefnogi'r disgyblion ag ysgrifennu, cyfansoddi a recordio cân. Roedd y gân Dal i Ddod yn adlewyrchu profiadau'r myfyrwyr yn ystod y pandemig, y rhai da a'r drwg. Bellach, caiff y recordiad hwn ei chwarae fel un o'r caneuon ar linell dal y lein, Desg Gymorth TG y Cyngor.

Rydym wedi derbyn chwech o gwynion ynghylch diffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym nawr yn cyflwyno camau gweithredu i sicrhau na fydd y rhain yn digwydd eto. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd wrth gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, fodd bynnag, mae rhai heriau wedi bod gyda recriwtio, yn arbennig o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai swyddi gyda'r cyhoedd. Mae hyn yn effeithio ar gapasiti'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Rydym yn falch o gael adrodd bod y Ganolfan Gyswllt wedi llwyddo i gynyddu nifer yr aelodau tîm sy'n siarad Cymraeg. Mae gwasanaethau'n cwblhau hunanasesiadau blynyddol yn erbyn y safonau, er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella, a byddwn yn parhau i wneud hyn yn ystod 2023/24.

# 10. Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio

Mae gan Sir y Fflint hanes hir a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau y mae yn eu gwasanaethu yn disgwyl i bartneriaid statudol a thrydydd sector i weithio gyda'i gilydd i rannu blaenoriaethau drwy gydweithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gosod blaenoriaethau ar y cyd a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella lles yn lleol.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn ffurfiol ym mis Ebrill 2016, yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ystyried yr heriau cyffredin a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, dechreuodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam gydweithio yn 2020, gan rannu gwybodaeth ac adnoddau, a chanolbwyntio ar wytnwch cymunedol.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cydweithio a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19, unodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn ffurfiol ac ym mis Ionawr 2023, fe ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint, Coleg Cambria, Adran Gwaith a Phensiynau, Heddlu Gogledd Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn gweithio â'i gymunedau i newid sut rydym yn gwneud pethau, er mwyn gwneud yn siŵr y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, fel yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut rydym yn sicrhau iechyd meddwl cadarnhaol a lles i bawb.

Mae llunio Cynllun Lles pum mlynedd newydd wedi bod yn ffocws allweddol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam, trwy dynnu ar ganfyddiadau'r Asesiadau Lles a gynhaliwyd yn 2022. Mae Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam 2023 - 2028 newydd gael ei gwblhau a'i gymeradwyo ac mae'n cynnwys dau amcan lles ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf:

- Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.
- Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.

Mae sawl canlyniad yn deillio o'r amcanion hyn, ac maent yn dod o dan dair thema:  Plant a Phobl Ifanc, Ein Cymunedau a Ble Rydym yn Gweithio.

Bydd Cynllun Lles 2023 – 2028 yn siapio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf a bydd yn gweithio'n agos â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal â gyda chymunedau lleol.

# 11. Rheoli Risg

Caiff holl Gynlluniau'r Cyngor, risgiau sy'n dod i'r amlwg a busnes fel arfer eu nodi, eu hasesu, eu trin a'u monitro gan ddefnyddio Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Caiff risgiau eu nodi trwy ddefnyddio data ansoddol (cerrig milltir a chamau gweithredu) a meintiol (dangosyddion perfformiad, ariannol). A ninnau bellach heibio Pandemig Covid-19, nid oes angen y dull adfer mwyach ac mae rhai ardaloedd yn ôl i drefn 'busnes fel arfer'. Fodd bynnag, mae adnabod risgiau yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae'n broses barhaus sydd wedi'i hymgorffori yn ein gwaith dyddiol (busnes fel arfer) yn ogystal â gwaith Cynllunio'r Cyngor, Cynllunio Busnes Portffolio, Rheoli Prosiectau, a Phartneriaethau (tymor byr, tymor canolig a hirdymor).

# 12. Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Mae'r Cyngor yn cael ei reoleiddio gan sefydliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, Archwilio Cymru, Estyn ar gyfer Addysg ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn nodi'r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi'i wneud gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd fis Ionawr 2022. Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. "Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau dyledus yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, fel a gafodd ei nodi gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021." Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

# 13. Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyflogwr o ran iechyd a diogelwch. Mae rheoli gweithleoedd sy'n ddiogel i iechyd holl weithwyr, isgontractwyr, budd-ddeiliaid y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, fel ein rhwymedigaeth bwysicaf. Rydym yn cymryd camau priodol i geisio diogelu iechyd, diogelwch a lles ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a gweithwyr ym mhopeth a wnawn.

# 14. Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol (Ar gael ar gais)

Mae nifer o ddogfennau cysylltiedig sy'n ategu at yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar gais:

- Cynllun y Cyngor 2022/23 – Rhan 2
- Cynllun y Cyngor- Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2022/23
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint 2022/23
- Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2022/23
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 15. Adborth a Sut i Gael Rhagor o Wybodaeth

Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Croesewir eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella cynnwys a chynllun yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y dyfodol.

**Cysylltwch â ni:**

**E-bost: PRM@flintshire.gov.uk**